British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2010/2011

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010/2011 Dyfrffyrdd Prydain

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd y DU yn unol ag adran 27 (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd yr Alban yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban yn unol ag adran 27 (8c) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn gorfforaeth gyhoeddus wedi'i noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yng Nghymru a Lloegr, a Transport Scotland (asiantaeth Llywodraeth yr Alban) yn yr Alban. Rydym yn rheoli rhwydwaith 2,200 milltir o hyd, 200 oed, o gamlesi ac afonydd.

Y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol, Cymru a Lloegr
Richard Benyon AS

Y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd, Yr Alban
Stewart Stevenson ASA (tan fis Rhagfyr 2010)

Y Gweinidog dros Drafnidiaeth a Seilwaith, Yr Alban
Keith Brown ASA (o fis Rhagfyr 2010 ymlaen)

Blaenoriaethau Strategol
Yng Nghymru a Lloegr, mae ein hadran nawdd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn darparu canllawiau strategol sy'n berthnasol i'r blaenoriaethau canlynol:

- Sicrhau bod y rhwydwaith dyfrffyrdd yn cael ei gadw mewn cyflwr boddhaol
- Gwireddu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth y DU/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol
- Sicrhau amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus ychwanegol

Yn yr Alban, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban. Mae hyd a lled gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn cyd-fynd â'r diben a'r pum Amcan Strategol a amlinellir gan Lywodraeth yr Alban:

- Cyfoethocach a Thecach
- Iachach
- Diogelach a Chryfach
- Doethach
- Gwyrddach

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2011/12.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Dros y 12 mis diwethaf, fe wnaethom gyflawni llawer ar lefel strategol a gweithredol. Gwnaed cynnydd rhagorol o ran newid o statws cyhoeddus i un elusennol yng Nghymru a Lloegr, ac wrth ddadgyfuno camlesi'r Alban ar ôl i Lywodraeth yr Alban benderfynu eu cadw yn nwylo'r sector cyhoeddus.

Credwn fod y newidiadau hyn yn gyfle i sicrhau seiliau ariannol mwy cadarn a chynaliadwy i'n dyfrffyrdd gwych yn y tymor hir, gyda mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd yn nwylo'r cymunedau lleol. Mae'r ddwy lywodraeth yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu strwythurau llywodraethu newydd i ateb y gofynion. Yng Nghymru a Lloegr, mae Ymddiriedolwyr Pontio wedi'u penodi i lywio a chymeradwyo'r canlyniad, ac mae Bwrdd Cynghori yn gwneud gwaith tebyg yn yr Alban. Mae llawer i'w wneud eto, ond yr un nod sydd gan bawb - sef cadw ein dyfrffyrdd yn y cyflwr gorau posib, er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib o'r gymuned eu defnyddio am genedlaethau lawer.

Elusen dyfrffyrdd newydd yng Nghymru a Lloegr

Mae sawl her o'n blaenau, yn enwedig casglu'r lefel ofynnol o incwm cychwynnol er mwyn cynnal a chadw'r dyfrffyrdd mewn cyflwr a fydd yn sicrhau twf a datblygiad parhaus. Fodd bynnag, unwaith y byddwn ni wedi cael statws elusennol gyda chontract cyllido'r llywodraeth bydd pob ceiniog ychwanegol a ddaw i'r coffrau yn cael eu gwario'n syth ar y dyfrffyrdd.

Mae'r llywodraeth wedi rhoi cefnogaeth ac anogaeth wych i'n cynlluniau fel elusen. Mae'r ymrwymiad gan weinidogion i gontract hirdymor gydag isafswm taliad gwarantedig, ynghyd â throsglwyddo'r asedau eiddo sy'n creu incwm i'r elusen newydd, yn hanfodol ac i'w groesawu'n fawr. Ni ddylem danbrisio'r llwyddiannau hyn – pethau yr oedd llawer yn credu na fyddai'r llywodraeth byth yn cytuno iddynt – ond mae'n rhaid cydnabod hefyd bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto cyn sefydlu'r elusen.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus tri-mis Defra, *A New Era for the Waterways*, a oedd yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer elusen newydd y dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr, wedi dod i ben ac rydym yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau yn yr hydref. Cawsom ein plesio'n fawr gan yr holl ddiddordeb a chefnogaeth i'r ymgynghoriad. Diolch i'r tîm gweithredol am eu gwaith diflino a'u dyfalbarhad i newid y statws hwn, a'n bod ni lle'r ydym ni heddiw. Roedd y llywodraeth yn bartner cefnogol hefyd, a chawsom ymateb parod a chadarnhaol gan ein rhanddeiliaid yn ôl y gofyn. Diolch o galon i bawb ohonoch am eich ymroddiad a'ch ymdrechion.

Mae Defra bellach wedi penodi'r Ymddiriedolwyr Pontio ar gyfer elusen newydd y dyfrffyrdd. Mae'n bleser gennyf dderbyn y gwahoddiad i fod yn gadeirydd, a chyhoeddi enwau'r pum ymddiriedolwr arall: Lynne Berry (prif weithredwr, WRVS), Jane Cotton (Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Oxfam) John Dodwell (cyn-gadeirydd, CBOA), Tom Franklin (prif weithredwr, Ramblers), Simon Thurley (prif weithredwr, English Heritage) ac aelodau cyfredol o fwrdd Dyfrffyrdd Prydain, John Bridgeman a Nigel Hugill. Mae'r holl aelodau yn uchel eu parch ym meysydd treftadaeth, gwirfoddoli, hamdden, cynhwysiant cymdeithasol, hwylio, y trydydd sector a'r byd masnachol, a byddant yn gallu gwneud cyfraniad enfawr i lwyddiant yr elusen newydd.

Yr allwedd i ddyfodol ein dyfrffyrdd yw sicrhau eu bod yn parhau i gynnig y manteision llawnaf posibl i'r cyhoedd, a bod cyfle i bawb helpu i lywio'r dyfodol hwnnw.

Mwy poblogaidd, mwy o gymorth

Ymwelodd bron i 13 miliwn o bobl â'n dyfrffyrdd yn 2010, er gwaetha'r haf gwlyb. Dywedodd dros 90% o'r boblogaeth fod y camlesi'n rhan bwysig o dreftadaeth Prydain, am y seithfed flwyddyn yn olynol. Rwyf hefyd yn falch fod nifer y cychod sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd mor uchel ag erioed.

Gwelsom dwf sylweddol (67%) o ran gwirfoddolwyr hefyd – sy'n flaenoriaeth wrth i ni symud i statws elusennol. Mae pobl o bob oed a chefndir yn gwirfoddoli, ac mae cyfreithwyr, peirianwyr, athrawon a dylunwyr y we ymhlith rhai o'r bobl sy'n rhoi o'u gwirfodd i'n helpu ni. Gwirfoddolwyr rheolaidd hirdymor yw'r rhain, ond mae nifer y gwirfoddolwyr tymor byr sy'n gwneud gwaith tacluso a chynnal a chadw cyffredinol yn dal i dyfu. Rydym wedi lansio 14 o gynlluniau mabwysiadu camlesi llwyddiannus, gyda gweithwyr cwmnïau fel HFC a Barclaycard yn gofalu am ddarnau milltir o hyd o'r camlesi. Mae ein perthynas wych â'r gwasanaeth prawf yn dal i ddatblygu, lle mae pobl yn cyfrannu at gymdeithas brif ffrwd ac yn gwneud cyfraniad gwerth chweil yr un pryd.

Gwella'r dyfrffyrdd

Rydym wedi cyflawni sawl carreg filltir bwysig ar y dyfrffyrdd eu hunain, gan gynnwys cwblhau camlesi Droitwich o'r diwedd. Mae'r camlesi hyn, a gaeodd ym 1939, bellach yn cynnig cylchdaith wych ar benwythnos hir yng nghanolbarth Lloegr ac yn destun balchder mawr i'r gymuned leol a roddodd gefnogaeth frwd a hael i'r gwaith adfer o'r cychwyn cyntaf.

Rydym wedi parhau i wella camlesi dwyrain Llundain, yn enwedig o amgylch safle'r gemau Olympaidd. Profiad bendigedig oedd gweld llynges o gychod St Pancras Cruising Club a'r Three Mills Mooring Association yn hwylio ar Carpenter's Road Lock ar ei newydd wedd yng Ngorffennaf 2010, ar ôl bod yn segur am ddeugain mlynedd.

Yn yr Alban, mae'r gwaith o greu mynedfa newydd i'r Lowland Canals gyda'u dau gerflun eiconig 30 metr o geffyl dŵr 'Kelpies' yn mynd rhagddo'n dda. Dechreuodd y gwaith cyfalaf eleni, a chafodd gwaith ehangu'r gamlas ei roi ar dendr, gyda'r nod o gychwyn arni'r gaeaf hwn.

Sicrhau arbedion

Mae llai o incwm wedi gorfodi i Dyfrffyrdd Prydain wneud penderfyniadau anodd, gan arwain at newidiadau i arferion gwaith, buddion cyflogwyr a rhai diswyddiadau, yn anffodus. Mae'r Bwrdd yn hynod ddiolchgar i'n holl gydweithwyr yn Nyfrffyrdd Prydain am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth cadarnhaol wrth roi'r newidiadau ar waith.

Rydym yn datblygu'n fwyfwy effeithlon gyda'n systemau rheoli gwybodaeth, sy'n ein galluogi i dargedu gwaith cynnal a chadw'r dyfrffyrdd. Fel gyda phob busnes, bydd arian yn cael ei ddyrannu'n ofalus ar sail risg, ac yn anffodus, does dim digon o arian i wneud pob dim, yn enwedig peth o'r gwaith trwsio hanfodol ond llai brys. Mae'r system reoli wedi nodi bod cyflwr y seilwaith craidd yn parhau'r un fath, er gwaethaf llai o fuddsoddiad eleni. Bydd twf incwm araf ond costau cynyddol dros y tair blynedd nesaf yn ei gwneud hi'n anodd inni ailadrodd y gamp, ond bydd yr egwyddor o ganolbwyntio ar y strwythurau â'r proffil risg uchaf yn genedlaethol yn llywio sut y defnyddiwn ein hadnoddau.

Rydym yn parhau i wella'n dulliau o esbonio ein rhaglen waith. Er enghraifft, buom yn cynnal nifer o ddiwrnodau agored cyhoeddus poblogaidd yn ystod rhaglen gynnal a chadw'r gaeaf a chroesawyd dros fil o bobl i'n dau weithdy i weld ein crefftwyr wrth eu gwaith. Gan fod y diwrnodau agored mor boblogaidd, rydym yn bwriadu trefnu mwy ohonynt y flwyddyn nesaf.

Mewn ffordd, mae hynny'n crynhoi fy swydd i'r dim – y teimlad o fod yn rhan o'r sefydliad anhygoel hwn sy'n cysylltu â chymaint o bobl mewn ffyrdd gwahanol, ac sy'n dod at ei gilydd er lles achos cyffredin – waeth faint o ddyletswyddau eraill sy'n galw.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Bwrdd sy'n ymddeol, Maggie Carver ac Eric Prescott, am eu cyfraniad, i'n Gweinidogion y Llywodraeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, i Clive Henderson, cadeirydd Inland Waterways Association, a ymunodd â'r Bwrdd fel arsylwr llawn yn 2010 ac, unwaith eto, i'n holl weithwyr a chefnogwyr am eu cyfraniad.

Tony Hales
Cadeirydd

TROSOLWG O'R GRŴP

Roedd eleni'n gymysgedd o lwyddiant tymor byr a hirdymor. Cawsom ganlyniadau da mewn amgylchiadau anodd iawn. Fe wnaethom barhau i gyflwyno manteision i'r cyhoedd, gam ddenu rhagor o gefnogaeth gyhoeddus, cynnal y dyfrffyrdd i safonau cyson a sicrhau canlyniadau ariannol gwell.

CYFLWYNO MANTEISION I'R CYHOEDD

Cymunedau lleol a mannau cyhoeddus

Hoffem weld y cyhoedd yn mwynhau ein dyfrffyrdd mewndirol am flynyddoedd i ddod. Mae hanner y boblogaeth yn byw o fewn pum milltir i un o'n dyfrffyrdd, ac maen nhw'n cynnig llawer o fanteision cymdeithasol ac yn gwella safon bywyd y rhai sy'n byw yn y cyffiniau. Elfen bwysig o'n gwaith yw defnyddio'r llefydd dŵr i ymgysylltu â chymunedau a chyflwyno mwy o fanteision i'r cyhoedd, a thrwy hynny, helpu i gyflawni amcanion y llywodraeth.

Dengys nifer o astudiaethau fod ein camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau yn darparu gwerth £500 miliwn o fanteision cyhoeddus bob blwyddyn, sy'n ffigur anhygoel. Ac mae ymchwil diweddar wedi'i gomisiynu gan Defra yn dangos yr amrywiaeth eang o fanteision cyhoeddus sydd i ddyfrffyrdd, fel annog pobl i adael eu ceir a defnyddio ein llwybrau tynnu. Yn yr Alban, rydym yn gweithio tuag at agenda Llywodraeth yr Alban i ddarparu camlesi sy'n cyflawni amcanion 'Alban gyfoethocach a thecach; iachach; diogelach a chryfach; doethach a gwyrddach'. Trwy fuddsoddi yng nghamlesi'r Alban, llwyddwyd i sicrhau manteision iechyd gwerth £10 miliwn y flwyddyn.

Rydym yn gweithio gyda phob math o sefydliadau ledled Prydain, partneriaethau cyhoeddus a'r sector preifat, a llawer o grwpiau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Rydym yn falch o'n hanes llwyddiannus o adennill deg gwaith yn fwy o arian am bob £1 o arian grant a fuddsoddir gan y llywodraeth.

Mae'r dyfrffyrdd yn gyfle i ni ddianc rhag bywyd bob dydd, ac mae ein camlesi a'n hafonydd yn llwyddo i ddenu pobl yn llu. Mae ymchwil yn dangos fod hamdden a thwristiaeth yn cyfrannu tua £1.1 biliwn i'r economïau lleol ac yn cynnal 24,000 o swyddi. Cadarnhaodd astudiaeth ddiweddar a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Environmental Science and Technology fod dyfrffyrdd yn gallu hybu lles pobl hefyd. Mae'r adroddiad yn dangos fod dim ond pum munud o ymarfer corff mewn mannau gwyrdd yn yr awyr iach yn gallu hybu'ch meddwl, yn enwedig ar lan y dŵr.

Dyfrffyrdd fel adnodd addysgol

Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau cryf gydag ysgolion a grwpiau cymuned gerllaw ein dyfrffyrdd, fel rhan o ymgyrch *Wild Over Waterways* (WOW) sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae ein gwaith yn annog plant a'u teuluoedd, arweinwyr grwpiau ac athrawon i ddefnyddio'r dyfrffyrdd fel ysbrydoliaeth i ddysgu. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n ymgysylltu â phobl ifanc nawr gan ein bod yn dibynnu ar eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth i ddiogelu'r

dyfrffyrdd yn y dyfodol. Mae WOW wedi paratoi nifer o adnoddau i'w lawrlwytho gan gynnwys '*All About Canals*' a '*Waterways Today*' o'n gwefan addysg (www.wow4water.net) sy'n addas i'w cyflwyno ar lan y gamlas ac yn y dosbarth, ac ar gyfer pob math o ddulliau dysgu gwahanol. Aethom ati i gynnal digwyddiadau recriwtio gwirfoddolwyr addysg am y tro cyntaf er mwyn denu pobl i helpu i arwain ymweliadau ysgolion a sesiynau addysgol. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gysylltu â 6,000 o blant trwy ddigwyddiadau ac ymweliadau ysgolion, dosbarthu dros 35,000 o becynnau addysg ac ymateb i 485 o geisiadau am gymorth ac adnoddau gan weithwyr addysg ac arweinwyr ieuenctid trwy gyfrwng ein gwefan a'n tîm addysg.

Hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol gwledydd Prydain

Mae'r holl waith cyfathrebu a gweithgareddau cyhoeddus a wnawn yng Nghymru yn ddwyieithog. Daeth ein Cynllun Iaith, sy'n cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, i rym ym mis Mawrth 2007 ac rydym yn parhau i weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gyflawni ein cynllun gweithredu. Mae ein gwaith cyfathrebu yn cynnwys deunyddiau darllen corfforaethol, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau yn ogystal ag arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr ac arwyddion am weithgareddau, a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys ein cynllun iaith, ewch i www.britishwaterways.co.uk

Yn yr Alban, fe wnaethom gydweithio â sefydliadau partner ar fenter Great Glen Ways (Slighean a'Ghlinne Mhòir) er mwyn cyflwyno'r Aeleg i'n harwyddion dehongli o amgylch camlas Caledonian. Cawsant eu cynllunio er mwyn dangos i'r ymwelwyr sut i ynganu'r geiriau Gaeleg a'u hannog i fwynhau dysgu a deall am yr iaith a'i diwylliant. Yr un yw'r egwyddor wrth baratoi arwyddion a phaneli ar lwybr Great Glen Canoe Trail hefyd, a byddwn yn cyfieithu prif deitlau'r wefan i'r Aeleg hefyd.

Hafan i fywyd gwyllt

Mae amgylchedd naturiol ein camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau yn elfen allweddol sy'n eu gwneud yn llefydd mor arbennig i ymweld â nhw, ac felly mae gwarchod ein bywyd gwyllt a'u cynefinoedd yn rhan bwysig o'n busnes. Rydym yn gweithio'n agos gydag ymddiriedolaethau cadwraeth lleol a chenedlaethol ar amryw o brosiectau gwahanol, o reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i roi cynllun gweithredu ar fioamrywiaeth ar waith; ac o reoli llystyfiant, i fonitro rhywogaethau sydd wedi'u diogelu a rhai goresgynnol/tramor. Mae'r arolwg bywyd gwyllt blynyddol yn elfen reolaidd o'n gwaith bellach, diolch i gymorth a brwdfrydedd ymwelwyr lleol. Yn 2010, cafodd 40,000 o rywogaethau gwahanol eu gweld a'u cofnodi ar hyd a lled ein dyfrffyrdd. Mae'r canlyniadau ar gyfer eleni yn dangos bod mwy nag erioed wedi gweld glas y dorlan, sef cynnydd o dros 200%. Gwelwyd nifer fawr o fadfallod dŵr, llyffantod a dyfrgwn hefyd, ac yn fwy calonogol, gwelwyd 23% yn fwy o adar y to – rhywogaeth sy'n diflannu o'n trefi a dinasoedd.

Gwarchod treftadaeth genedlaethol

Fel gwarcheidwaid rhwydwaith 200 mlwydd oed, rydym ni'n gwarchod, adfer a diogelu rhai o nodweddion mwyaf hanesyddol ac eiconig gwledydd Prydain. Yn wahanol i gymaint o'n trysorau cenedlaethol, fodd bynnag, rydych chi'n gallu gweld, profi a chyffwrdd â'n casgliad treftadaeth ni. Rydym ni'n rheoli'r trydydd casgliad mwyaf o strwythurau rhestredig ym Mhrydain, gan gynnwys dros 2,700 o adeiladau rhestredig, 51 o henebion cofrestredig, dros 400 milltir o ardaloedd cadwraeth a miloedd o safleoedd archeolegol.

Bob haf, rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad '*State of the Waterways Heritage*' sy'n adolygu ein strwythurau treftadaeth ac yn crynhoi ein gwaith. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r newidiadau ac yn nodi'r cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion treftadaeth: gwerthfawrogi treftadaeth er ei fwyn ei hun ac ar sail manteision i'r cyhoedd; hyrwyddo treftadaeth a chodi ymwybyddiaeth o sgiliau treftadaeth; cydymffurfio â'r gyfraith; lleihau'r 'adeiladau mewn perygl'; a gwella strwythurau treftadaeth trwy waith trwsio neu adfer. Mae cyfraniad

gwirfoddolwyr wedi cynyddu dros y flwyddyn, a bydd yn bwysicach nag erioed wrth i Dyfrffyrdd Prydain droi'n elusen. Ewch i'n gwefan i weld yr adroddiad diweddaraf: www.britishwaterways.co.uk

Cynllun gwyrdd

Yn Hydref 2010, fe wnaethom lansio cynllun gwyrdd Dyfrffyrdd Prydain er mwyn symleiddio'r modd rydym yn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy fel ei fod yn hawdd i'w ddeall, yn cynnwys targedau clir y gellir eu cyflawni, ac yn ddigon eglur i nodi'r cynnydd. Rydym wedi gwarchod a gofalu am y dyfrffyrdd fel hyn ers blynyddoedd, ond gallwn wneud llawer mwy. Mae'r Cynllun Gwyrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes yn arbennig: ynni, adnoddau, gwastraff a manteision amgylcheddol a chyhoeddus, neu'r 'angorau' – sy'n cynrychioli'r meysydd hynny sy'n flaenoriaeth i ni o ran ein hymdrechion a'n hadnoddau mewnol.

Ein nod yw:

- asesu ein defnydd o adnoddau sylfaenol i leihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy wneud defnydd priodol o adnoddau adnewyddadwy ac adnoddau wedi'u hailgylchu
- lleihau'r gyfran o wastraff a deunyddiau wedi'u carthu sy'n cael eu hanfon i safle tirlenwi
- gwarchod a gwella'r dyfrffyrdd er lles bioamrywiaeth a mwynhad y cyhoedd.
- mesur yr holl ynni rydym ni'n ei ddefnyddio yn gywir, a chymryd camau i leihau allyriadau carbon

Rydym ni'n parhau i weithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ac wedi paratoi Cynllun Rheoli Carbon newydd i leihau allyriadau carbon o weithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn sylweddol. Mae Gweithgor y Cynllun Gwyrdd yn arwain ein hymrwymiad yn y maes hwn ac rydym wedi penodi gwyddonydd amgylcheddol i gyflwyno mwy o adnoddau i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Gwyrdd.

Helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddynt

Mae rôl dyfrffyrdd gwledydd Prydain yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn datblygu'n fwyfwy pwysig. Rydym wrthi'n gweithio ar hyn o bryd gyda nifer o ddatblygwyr er mwyn gosod cynlluniau trydan dŵr bach ar goredau afonydd addas. Mae un ohonynt, Small Hydro Company, wedi llwyddo i gael pedair trwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer pum cynllun. Bydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn 2012. Hefyd, mae modd defnyddio'r tiroedd ar hyd camlesi ac afonydd i godi melinau gwynt, ac rydym yn gweithio gyda Partnership for Renewables gan edrych ar y posibiliadau ar gyfer nifer o dyrbinau. Cyflwynwyd cais cynllunio i godi un tyrbin 1.5MW yng nghronfa ddŵr Boddington. Os caiff sêl bendith, rhagwelir y gallai'r tyrbin hwn gynhyrchu 3.28GWh o drydan adnewyddadwy bob blwyddyn, sef yr un faint o drydan ag sy'n cael ei ddefnyddio gan 713 o gartrefi arferol bob blwyddyn, gan arbed rhyw 1,412 o dunelli o allyriadau carbon deuocsid y flwyddyn.

Rydym yn dal i gynnig cyfle i fusnesau ddefnyddio dŵr o gamlesi at ddibenion gwahanol, yn enwedig i oeri adeiladau. Mae llawer o sefydliadau, yn enwedig canolfannau data a thechnoleg cyfathrebu, yn gwario cyfran helaeth o'u costau trydan ar oeri llefydd. Trwy ddefnyddio dŵr camlas, gallant gwtogi ar eu costau ynni a'u hôl troed carbon yn sylweddol. Mae ein cwsmer diweddaraf, GlaxoSmithKline, yn defnyddio'r gamlas fel hyn i oeri'r pencadlys yn Brentford. Mae'r cynllun hwn yn golygu eu bod yn arbed 276 tunnell o garbon bob blwyddyn, sy'n gyfystyr â thynnu tua 330 o geir teuluol oddi ar y ffyrdd, gan arbed dros £120,000 mewn costau ynni. Enillodd y prosiect oeri hwn wobr cynaliadwyedd o fri'r BIFM (Sefydliad Rheoli Cyfleusterau Prydeinig) yn 2010.

Hyd yn oed gyda'r rhagolygon mwyaf gobeithiol o ran lliniaru'r effeithiau byd-eang, mae ein hinsawdd yn debygol o barhau i gynhesu, gyda gaeafau gwlypach a hafau sychach ar gyfartaledd. Rhaid i ni ddechrau cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn, felly, ac rydym wedi derbyn gwahoddiad gan Defra i baratoi adroddiad ar addasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd yr

adroddiad hwn yn asesu pa elfennau o'n busnes sydd fwyaf bregus yn sgil effeithiau newid yn yr hinsawdd, beth rydym ni'n ei wneud i leihau'r peryglon hyn, a beth arall ddylem ei wneud yn y dyfodol.

RHAGOR O GEFNOGAETH GYHOEDDUS

Ymweliadau, cymorth a bodlonrwydd

Am y seithfed flwyddyn yn olynol, dywedodd dros 90% o'r boblogaeth fod camlesi'n rhan bwysig o dreftadaeth Prydain. Ein nod yw bodloni a chynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n byw, gweithio a chwarae ar, ac o amgylch, ein camlesi a'n hafonydd. Yn 2010, fe ymwelodd oddeutu 12.7 miliwn o bobl, neu 26% o oedolion gwledydd Prydain, ag un o'n dyfrffyrdd sy'n fymryn yn is na'r 13 miliwn yn 2009. Er gwaetha'r sefyllfa economaidd, mae nifer y cychod ar ein camlesi a'n hafonydd yn dal i gynyddu, gyda 35,241 o gychod trwyddedig (2009/10: 34,944).

Rydym yn pwyso a mesur profiad ein hymwelwyr trwy ofyn iddynt a ydynt yn 'dueddol o argymell' ac, yn unol â'n hawydd i blesio ein cwsmeriaid, rydym wedi dewis mesur ein hunain yn erbyn y sgôr uchel iawn o argymell 'yn sicr'. Yn 2010, dywedodd 59% o'n defnyddwyr llwybrau tynnu (2009: 56%) a 65% o'n hymwelwyr cyrchfan (2008: 67%) y byddent 'yn sicr' yn argymell ein dyfrffyrdd i eraill. Pe baem hefyd yn ystyried y sgorau 'yn debygol' ac 'o bosib', sy'n debycach i fusnesau eraill, byddem yn sgorio 95% ar gyfer ymwelwyr llwybrau tynnu (2009: 95%) a 96% ar gyfer ymwelwyr cyrchfan (2008: 96%).

Mae gennym filiynau o gwsmeriaid sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd am resymau gwahanol, ac rydym am glywed eu barn ar ein gwasanaethau. Rydym yn falch o allu ymgysylltu â chymaint o gymunedau, grwpiau ac unigolion sy'n defnyddio ein dulliau cyfathrebu ffurfiol a thrwy'r sgyrsiau anffurfiol a gawn gyda nhw bob dydd. Hoffem ddiolch i'r holl grwpiau sy'n cyfrannu'n rheolaidd at ein grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys Fforwm Cynghori Pysgotwyr Prydain sydd newydd ei sefydlu, Fforwm Cynghori Dyfrffyrdd Prydain (BWAF) hirsefydlog, a Grŵp Buddiannau Arbennig Defnyddwyr y Dyfrffyrdd. Mae eu barn, brwdfrydedd a'u crebwyll yn ein helpu ni i lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn defnyddio cyfres o safonau gwasanaethau cwsmeriaid i fesur ein perfformiad mewnol, er mwyn gwella profiad ymwelwyr a helpu ein staff i ymateb yn effeithiol i'w gofynion. Rydym yn monitro ein gwaith ym meysydd Pobl, Diogelwch a Pherfformiad trwy gyfrwng archwiliadau mewnol a 'siopa dirgel' allanol.

Mae nifer fawr o safonau unigol yn cael eu gwerthuso a'u cynnwys mewn sgôr cyfanredol terfynol i fesur ein perfformiad. Yn 2010, ein sgôr oedd 82% (2009/10: 85%) o ran safonau pobl, 97% (2009/10: 95%) o ran safonau diogelwch, ac 87% (2009/10: 82%) o ran safonau perfformiad.

Targedau a chyflawniadau gwasanaethau cwsmeriaid

	Targed	Cyflawnwyd yn 2010/11
Nifer yr ymwelwyr unigol dros gyfnod o bythefnos (2010)	3.5 miliwn	3.8 miliwn
Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon (yn llawn neu'n rhannol)	0	3
Safonau pobl	85%	82%
Safonau perfformiad	80%	87%
Yn dueddol o argymell (yn sicr) – defnyddwyr llwybrau tynnu (2010)	70%	59%
Yn dueddol o argymell (yn sicr) – cyrchfannau (2010)	80%	65%
Credu bod camlesi yn rhan bwysig o dreftadaeth Prydain	90%	91%

*Ac eithrio'r Safonau Diogelwch Gofynnol (tudalen 10)

Gweithio gyda gwirfoddolwyr

Yn 2010, fe wnaethom recriwtio pum rheolwr gwirfoddolwyr gwirfoddol newydd er mwyn helpu i weithredu rhaglen wirfoddoli ledled y cwmni, a datblygu cysylltiadau â gwirfoddolwyr hen a newydd. Rydym yn gweithio gyda'r arbenigwyr gwirfoddoli, BCTV, i greu pecyn diagnostig ar-lein i'n helpu i fesur ac asesu agweddau ein gweithwyr tuag at wirfoddoli ac asesu anghenion hyfforddi yn y dyfodol. Lansiwyd partïon gwirfoddoli'r dyfrffyrdd, gyda phwyslais ar grwpiau anffurfiol a oedd yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis. Y nod oedd rhoi cyfle i ffrindiau, teuluoedd a dieithriaid ddod ynghyd i weithio ar dasgau gwahanol, o waith rheoli a chadwraeth yr amgylchedd, i beintio lociau a thwtio safleoedd ar hyd a lled y wlad. Rydym wedi datblygu 14 o gynlluniau mabwysiadu'r dyfrffyrdd newydd ar draws y rhwydwaith, sy'n gyfle gwych i bobl gymryd rhan a helpu i ofalu am eu camlas neu afon leol. Maent yn cynnwys cwmnïau mawr fel Barclaycard a grwpiau cymuned lleol fel prosiect ieuenctid a chymunedol Blacon, Swydd Gaer. Bellach, mae dros 700 o wirfoddolwyr unigol Dyfrffyrdd Prydain wedi ein helpu ni yn y ddwy flynedd diwethaf gan gynnwys, am y tro cyntaf, dros 50 o geidwaid lociau gwirfoddol lleol sydd wedi'u recriwtio mewn pump o'n hunedau dyfrffyrdd. Rydym yn parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr ifanc, gan gynnwys y Waterway Action Squad yng Ngogledd-orllewin Lloegr, lle bu dros 530 o bobl ifanc 16-25 oed yn rhoi o'u hamser yn ystod blwyddyn gynta'r prosiect. Mae ein diwrnodau gwirfoddoli wedi treblu o 8,000 yn 2007 i dros 24,000 yn 2010 (2009: 14,600), sy'n werth dros £1.6 miliwn yn ein tyb ni. Mae hwn yn gynnydd aruthrol mewn amser byr, a bydd ei lawn botensial yn amlwg dros y blynyddoedd nesaf.

Cwynion

Rydym yn mesur ein cwynion swyddogol ac yn ystod 2010/11 fe gawsom 230 o gwynion lefel gyntaf, sef 37% yn llai na'r flwyddyn flaenorol (2009/10: 362). O'r cwynion lefel gyntaf

hyn, aeth 49 ymlaen i'r ail lefel er mwyn i'r uwch reolwr neu gyfarwyddwr eu hystyried, sef 21% o'r holl gwynion a ddaeth i law (2009/10: 18% a 2008/09: 15%).

Mae Ombwdsmon Annibynnol y Dyfrffyrdd ar gael i ystyried cwynion ar y drydedd lefel a'r lefel olaf. Yn ystod 2010/11, derbyniodd 85 o ymholiadau (2009/10: 81), gyda 14% yn amherthnasol i ni a 59% yn gynamserol, h.y. nid oedd yr achwynydd wedi cwblhau ein gweithdrefn gwyno fewnol. Cafodd 21 o gwynion (2009/10: 23) eu derbyn i'w hystyried. Cwblhaodd Ombwdsmon y Dyfrffyrdd 21 o achosion yn ystod y flwyddyn hon (2009/10: 22). Gwrthodwyd 13 achos, cafodd un ei dynnu'n ôl, cafodd tri achos eu datrys yn foddhaol ar ôl i'r Ombwdsmon ymyrryd (yn rhannol neu'n llawn), cafodd tri eu derbyn yn llawn neu'n rhannol, ac ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliad mewn un achos. Mae gwybodaeth am y cynllun Ombwdsmon a'i bwyllgor annibynnol ar gael yn www.waterways-ombudsman.org.

Bu 18% yn fwy o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth eleni, sef 259 o gymharu â 220 o geisiadau yn ystod 2009/10.

CYNNAL A CHADW EIN HAFONYDD A CHAMLESI HANESYDDOL

Gyda chymaint o adnoddau ar ein dwylo, mae'n her a hanner gofalu am seilwaith dyfrffyrdd 200 mlwydd oed sy'n ymestyn 2,200 o filltiroedd dros wledydd Prydain. Mae'n hanfodol gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd er mwyn cadw'r rhan hon o dreftadaeth ddiwylliannol Prydain mewn cyflwr da. Mae llawer o'r asedau yn hollol amlwg i'r cyhoedd: ein llwybrau tynnu, pontydd, twneli, dyfrbontydd, lociau ac arwyddion. Nid yw asedau eraill fel siambrau a llifddorau, glanfeydd, ategweithiau, cylfatau, pyllau ochr, cyflenwyddion a choredau mor amlwg. Felly, nid yw pob elfen o'n gwaith a gwariant yn weladwy. Yn 2010/11, roedd ein gwariant uniongyrchol ar y dyfrffyrdd, a oedd yn cynnwys gwaith trwsio, cynnal a chadw, gwasanaethau cwsmeriaid a phrosiectau adfer, yn ogystal â chostau cysylltiedig gan dimau cymorth mewn meysydd technegol, diogelwch, dŵr, yr amgylchedd a threftadaeth, yn werth £128.2m (2010: £143m); sef 70% (2010: 75%) o'n holl wariant.

Roedd y gwariant uniongyrchol hwn o £128.2 miliwn ar ein dyfrffyrdd yn cynnwys:

- £65.4 miliwn ar weithrediadau cwsmeriaid a gwaith cynnal a chadw craidd ar y dyfrffyrdd
- £22.4 miliwn ar waith seilwaith mawr
- £18.3 miliwn ar brosiectau gwella a ariennir gan drydydd parti
- £4.3 miliwn ar waith carthu

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n partner adeiladu May Gurney ar waith cynnal a chadw, ac rydym wedi ymestyn ein contract gyda Fountains Utilities Cyf. yng Nghymru a Lloegr i gynnwys yr holl waith llystyfiant a chyfleusterau er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau ein costau. Dyfarnwyd contract carthu cenedlaethol i Land and Water Services Cyf. yn ystod y flwyddyn, a bydd contract unigol eleni yn caniatáu inni wneud mwy o waith carthu yn y fan a'r lle.

Model 'cyflwr sefydlog'

Ystyr y model 'cyflwr sefydlog' yw amcangyfrifiad o gostau cynnal y dyfrffyrdd ar hyn o bryd er mwyn osgoi dirywiad hirdymor, a chadw seilwaith y dyfrffyrdd mewn cyflwr rhesymol o weithredol. Cafodd y model hwn ei gyflwyno yn 2008, pan roedd gwariant ar waith cynnal a chadw oddeutu £30 miliwn yn is na'r swm 'cyflwr sefydlog'. Mae gweithgor mewnol yn ailwampio'r model. Bydd hyn yn diweddaru'r amcangyfrifon costau ac yn adlewyrchu'r arbedion y mae timau cynnal a chadw'r dyfrffyrdd a gwaith peirianyddol mawr yn gobeithio'u gwneud o safbwynt costau gweithrediadau. Disgwylir canlyniadau'r llif gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2011. Ond, oherwydd y bydd llai o arian i'w wario ar y dyfrffyrdd yn sgil llai o incwm a llai o gymorth ariannol gan y llywodraeth, bydd y bwlch rhwng yr union wariant a'r swm 'cyflwr sefydlog' gofynnol yn ehangu, tan y bydd ffynonellau incwm eraill yn tyfu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, canolbwynt ein cynlluniau ar gyfer gwaith cynnal a chadw

cyffredinol ar y dyfrffyrdd fydd gwella lefelau cynhyrchiant y gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a'r gwaith cau a gynlluniwyd, ac amserlen ar gyfer gwaith trwsio â blaenoriaeth.

Cyflwr asedau a thargedau a chyflawniadau Safonau Diogelwch Gofynnol

	Targed	Cyflawnwyd yn 2010/11
Cydymffurfio â'r safonau diogelwch gofynnol	100% yn cydymffurfio	97%
Prif asedau sy'n derbyn graddau D ac E	Heb fod dros 22%	17.9%

Ein nod yw sicrhau bod y strwythurau dyfrffyrdd, sef ein prif asedau, mewn cyflwr derbyniol o ystyried ein cyfyngiadau ariannol. Bob blwyddyn, rydym yn mesur hyn trwy eu graddio o A i E - A yw'r cyflwr gorau ac E yw'r gwaethaf. Yn 2010/11, aethom ati i leihau'r strwythurau gradd D ac E i ddim ond 17.9% yn gyfanredol.

Digwyddiadau diogelwch gweithwyr cyflogedig Dyfrffyrdd Prydain



Ebr, Meh, Awst, Hyd, Rhag
Digwyddiadau i'w hadrodd yn unol â RIDDOR
Digwyddiadau lle collwyd amser
Achosion cymorth cyntaf
Anaf – dim triniaeth

Darparu lle diogel

Mae diogelwch yn flaenoriaeth uchel gennym o hyd, gyda phwyslais ar gynllunio a chyflawni hynny'n effeithiol. Mae'r graff yn dangos sut rydym wedi llwyddo i leihau'r cyfanswm digwyddiadau ac achosion dros amser. Er gwaethaf blwyddyn anodd, rydym wedi cynnal y gwelliant hwn trwy leihau nifer yr anafiadau difrifol. Rhoddwyd cryn bwyslais ar ymddygiad diogel er mwyn gwella diogelwch. Mae ein rhaglen yn cynnwys defnyddio rheolwyr, goruchwylwyr a'r gweithlu er mwyn nodi a mynd i'r afael ag ymddygiad a all roi cydweithwyr mewn perygl o gael anaf.

Mesur cyflwr y dyfrffyrdd

Yn ystod 2009, buom yn gweithio gyda Defra i ddatblygu dull o fesur cyflwr ac ymarferoldeb y dyfrffyrdd yn gyffredinol. Mae'n seiliedig ar nifer o elfennau gwahanol sydd wedi'u pwysoli a'u cyfuno i greu Mynegeion ar gyfer Cyflwr Dyfrffyrdd a Budd Defnyddwyr. Yn 2010, fe wnaethom gyfrifo'r mynegeion hyn am y tro cyntaf a mesur y symudiad o'r mynegai llinell sylfaen yn 2009.

Cynyddodd Sgôr Stiwardiaeth y Rhwydwaith, a'r Mynegai Budd Defnyddwyr, 7% yn 2009/10 o gymharu â 2008/09. Byddwn yn cyflwyno adroddiad yn yr hydref, ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan www.britishwaterways.co.uk.

CRYNODEB O GANLYNIADAU ARIANNOL £M

	2010/11	2009/10	Grŵp Dyfrffyrdd Prydain 2008/09	2007/08	2006/07
Cyfanswm refeniw	**176.5**	187.1	223.3	219.1	188.9
(Colled) / elw gweithredu	**(3.7)**	(5.3)	5.6	(1.5)	(0.4)
Llog net sy'n daladwy	**(4.6)**	(7.8)	(3.4)	(0.2)	(0.4)
Cyfran elw a cholled o fentrau ar y cyd	**(1.8)**	(18.3)	(33.3)	(2.4)	7.3
Elw ar werthu eiddo a buddsoddiadau	**11.0**	5.3	4.7	19.4	8.3
(Colled) / elw ar ailbrisio eiddo a fuddsoddwyd	**4.4**	7.8	(66.4)	17.2	44.1
(Diffyg) / gwarged cyn treth	**5.3**	(18.3)	(92.8)	32.5	58.9
Cronfeydd wrth gefn y Grŵp	**394.4**	350.2	378.7	477.8	426.8

Perfformiad ariannol

Prif bennawd cyfrifon 2010/11 yw'r gostyngiad o 16% yng ngrantiau'r llywodraeth, sef £58.9 miliwn o gymharu â £70.2 miliwn yn 2009/10. Aethom i'r afael â hynny trwy ganolbwyntio ar wneud arbedion effeithlonrwydd, trwy gwtogi ar faint ein timau rheoli a thechnegol a gwario £9.5 miliwn yn llai ar waith cynnal a chadw a gwaith mawr yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom elw sylweddol iawn o £11 miliwn ar ôl cael gwared ar eiddo a buddsoddi, ac mae gwerth ein portffolio eiddo buddsoddi anweithredol yn dal i adfer yn raddol yn sgil effeithiau'r dirwasgiad gyda chynnydd bychan o 1% yn y portffolio ar gyfer y flwyddyn (£4.4m) sydd, ynghyd â'r cynnydd o £7.8 miliwn y llynedd, yn golygu gwelliant o 3% o gymharu â gostyngiad yn 2008/09. Mae rhagor o fanylion am ein canlyniadau ariannol i'w gweld yn yr adran Adolygiad Ariannol ar dudalennau 28 i 35.

Gwneud arbedion effeithlonrwydd

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol, y lleihad mewn incwm masnachol, costau pensiwn cynyddol a'r toriadau yn grantiau'r llywodraeth yn golygu bod tair blynedd anodd o'n blaenau. Ym mis Chwefror 2010, aethom ati i weithredu ein cynllun adfer a oedd yn cynnwys ambell benderfyniad anodd, fel colli cant o weithwyr swyddfa. Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer gweithwyr newydd. Er ein bod ni wedi cwtogi ar fuddion gweithwyr yn sgil yr ymgynghoriad, rydym wedi cyflwyno newidiadau sy'n golygu ein bod ni'n gallu rheoli costau a risgiau'n well yn y dyfodol tra'n dal i gynnig pensiwn o safon i'r aelodau.

Mae ein gweithlu ymroddgar yn haeddu pob clod am y modd maen nhw wedi ymateb i'r newidiadau hyn, ac am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd dros warchod a datblygu ein dyfrffyrdd.

Yn ogystal â rhewi'r rhan fwyaf o benodiadau a'r holl gyflogau yn 2011/12, rydym wedi cyfuno ein swyddfeydd yng nghanolbarth Lloegr, trwy gau swyddfa Canwell a symud gweithwyr i swyddfa Hatton. Rydym hefyd yn bwriadu uno swyddfeydd Watford, Milton Keynes a Paddington yn swyddfa Milton Keynes, gan arbed tua £1 filiwn y flwyddyn.

ADOLYGIAD CYMRU A LLOEGR

Mae ein strategaeth yng Nghymru a Lloegr yn cyd-fynd ag amcanion Defra, ein hadran nawdd y llywodraeth, sy'n gofyn inni wneud y canlynol:
1) cynnal rhwydwaith y dyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol;
2) cyflawni gweledigaeth hirdymor y llywodraeth/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol;
3) darparu amrywiaeth o fanteision cyhoeddus ychwanegol.

Mae'r adran hon yn ategu'r wybodaeth sydd yn y Trosolwg o'r Grŵp, gydag astudiaeth achos fanylach sy'n dangos y cynnydd da a wnaethom yn erbyn blaenoriaeth 1 a 3 yn ystod y flwyddyn. Mae'r Adolygiad Ariannol yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad masnachol.

CYNNAL RHWYDWAITH Y DYFRFFYRDD MEWN CYFLWR BODDHAOL

Wedi cwblhau rhaglen gynnal a chadw llwyddiannus

Rydym yn gwarchod rhai o'r enghreifftiau gorau o dreftadaeth ddiwydiannol weithiol yn y byd, gan gynnwys y trydydd casgliad mwyaf o strwythurau rhestredig yn y DU. Mae ein gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf yn rhan o'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud bob blwyddyn er mwyn cadw'r rhwydwaith 200 mlwydd oed mewn cyflwr da.

Yr haf diwethaf, buom yn holi ein cwsmeriaid cychod am eu cynlluniau cynnal a chadw yn y gaeaf, trwy gyhoeddi atodlen dros dro ar ein gwefan i gael eu hymateb. Defnyddiwyd yr adborth hwn i sicrhau nad oedd ein gwaith cynnal a chadw yn amharu cymaint ar ddefnyddwyr cychod dros y gaeaf.
Er gwaetha'r tywydd difrifol a'r eira trwm ym mis Rhagfyr, fe wnaethom lwyddo i gwblhau'r rhaglen waith genedlaethol a hysbysebwyd, a'r rhan fwyaf ohoni yn ôl yr amserlen.

Cyfle i'r cyhoedd weld ein gwaith cynnal a chadw

Yn ystod y gaeaf, cafodd aelodau'r cyhoedd gyfle i fwynhau taith 'y tu ôl i'r llenni' i weld y gwaith adfer a thrwsio ar eu camlesi ac afonydd lleol, gan gynnwys diwrnodau agored yn lifft cychod Anderton, lociau grisiog Caen Hill, dyfrbont Lune, yn ogystal â chyfle unigryw i weld gweithdy llifddorau arbenigol Dyfrffyrdd Prydain yn Bradley, gorllewin canolbarth Lloegr a Stanley Ferry, Swydd Efrog.

Ymhlith ein prosiectau cynnal a chadw amrywiol eleni, mae archwilio'r twneli a gosod pum llifddor newydd yn Tardebigge ar gamlas Worcester & Birmingham, sy'n gartref i'r gyfres o lociau grisiog rhestredig gradd dau mwyaf yn y DU. Fe wnaethom ddraenio 2.2 miliwn o alwyni o ddŵr er mwyn gwneud gwaith trwsio ac adfer bricwaith ar waelod y siambr gan ddefnyddio mortar calch traddodiadol yn lle sment i ddiogelu'r strwythur sydd yno eisoes. Cafodd y llifddorau eu cynhyrchu a'u hadfer yn ein gweithdai ein hunain, gan ddefnyddio coed derw o ffynonellau cynaliadwy.

Ar y llaw arall, fe ddefnyddiom dechnoleg yr unfed ganrif ar hugain i gwblhau'r gwaith yn effeithlon yn Loc Carthagena ar Afon Lee. Roedd y gwaith hanfodol hwn, gwerth £80,000, yn cynnwys tynnu ac adfer pedair llifddor bren â ffrâm ddur y loc, sy'n pwyso rhwng 4 a 5½ tunnell yr un. Defnyddiwyd system sugnol i godi a symud y strwythurau derw tri medr sy'n gorwedd ar waelod y loc o flaen y llifddorau, gan helpu i greu seliau dwrglos.

Rydym yn gorfod ystyried yr holl amrywiaeth o fywyd gwyllt sy'n byw ar ein dyfrffyrdd wrth i ni wneud ein gwaith cynnal a chadw. Un enghraifft yw prosiect i drwsio wal o'r ddeunawfed ganrif sy'n dyddio'n ôl i 1777, sy'n creu rhan o'r drychfa yn Kiveton a ddyfarnwyd yn 'Rhagorol' gan CEEQUAL sy'n hyrwyddo gwaith cynaliadwy mewn prosiectau peirianneg sifil a thir y cyhoedd. Defnyddiwyd tywodfaen lleol i ailadeiladu'r drychfa galchfaen. Roedd gweithiau ategol yn cynnwys darparu pegiau pysgota newydd ar gyfer y llu o bysgotwyr sy'n defnyddio'r gamlas. Cafodd adnoddau o ffynonellau wedi'u cymeradwy gan yr FSC eu defnyddio gydol y prosiect, a chrëwyd cyn lleied â phosib o wastraff yn unol â'r canllawiau cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a threftadaeth priodol. Roedd ystyriaethau ecolegol yn cynnwys gadael y gwaith plannu planhigion tan ddechrau'r gwanwyn er mwyn amharu llai ar lygod y dŵr, ac ailddefnyddio silt y gamlas i wella eu cynefin. Cafodd clwydi ystlumod posibl eu nodi hefyd, a'u cadw ar y safle.

Fel rhan o ddathliadau deucanmlwyddiant dyfrbont Iron Trunk ar gamlas y Grand Union, rydym yn gwneud rhaglen welliannau gwerth £300,000 dros flwyddyn. Y dasg gyntaf oedd dadansoddi'r paent sydd yno eisoes, er mwyn sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r paent cywir yn y llefydd cywir. Rydym yn cysylltu ag ysgolion a sefydliadau lleol er mwyn ymchwilio i wybodaeth ar gyfer paneli dehongli newydd sy'n rhoi hanes y dyfrbont i ymwelwyr a defnyddwyr cychod.
Roedd rhaid inni ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl hefyd. Er enghraifft ym mis Gorffennaf 2009, cwblhawyd gwaith trwsio'r arglawdd a oedd wedi torri ar gamlas Caldon yn dilyn buddsoddiad gwerth £500,000 dros wyth mis. Ailosodwyd leinin clai'r gamlas i sicrhau ei fod yn ddwrglos, a chryfhawyd sawl rhan o'r arglawdd er mwyn lleihau'r perygl o ollwng yn y dyfodol.

DARPARU MANTEISION I'R CYHOEDD

Diogelu a hyrwyddo treftadaeth

Rydym yn diogelu a hyrwyddo ein camlesi hanesyddol ac afonydd mordwyo, yn ogystal â'u treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirweddau o waith dyn, er mwyn eu trysori i genedlaethau'r dyfodol. Roedd cyhoeddiad diweddar o'r enw '*Resilient Places*' gan gwmni melin drafod Demos gyda chefnogaeth Dyfrffyrdd Prydain, yn galw am 'hawliau tramwy' trefol fel rhan o dreftadaeth y dyfrffyrdd. Mae'n credu mai sicrhau mynediad cyhoeddus yw'r cam cyntaf tuag at agor safleoedd segur at ddefnydd creadigol. Felly, dylid helpu cymunedau i ddefnyddio'r safleoedd hyn ar gyfer hamddena a digwyddiadau fel gwyliau.

Rydym yn dal i weithio ochr yn ochr ag English Heritage ac wedi llofnodi tri chytundeb partneriaeth treftadaeth arall yn Foxton, Swydd Gaerlŷr, camlas Pocklington, camlas Lancaster, ac mae rhagor ar y gweill. Ar ôl cyflwyno ceisiadau manwl i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, dyfarnwyd grant o £1 filiwn i ddyfrbont Lune ar gamlas Lancaster yn ogystal â chyfraniadau ychwanegol o £1.25 miliwn gan Gyngor Dinas Lancaster, Cyngor Swydd Gaerhirfryn ac Ymddiriedolaeth Camlas Lancaster. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys

atgyweirio'r gamlas a sianel y dyfrbont, cael gwared ar lystyfiant a graffiti, ail-bwyntio a thrwsio'r waliau cerrig, a gwella'r mynediad rhwng y dyfrbont ac Afon Lune.

Buom yn cymryd rhan yn rhaglen genedlaethol 'Diwrnodau Agored Treftadaeth' eto eleni, ac roedd y digwyddiadau'n cynnwys: teithiau tywys o amgylch dociau Caerloyw ac ymweliadau â thri safle yn Llundain, dau ohonynt dan arweiniad gwirfoddolwyr. Agorodd twnnel a chanolfan ymwelwyr Standedge hefyd, a rhoddwyd darn o graig y twnnel yn gofrodd i'r can ymwelydd cyntaf. Rydym yn dathlu daucanmlwyddiant twnnel Standedge ar gamlas gul Huddersfield. Ym mis Ebrill, cynhaliwyd penwythnos o ddigwyddiadau arbennig ar dwnnel camlas hiraf, uchaf a dyfnaf Prydain.

Yn 2010/11, lansiwyd ein prosiect ar y cyd â'r Transport Trust gwirfoddol i goffau safleoedd cludiant hanesyddol Prydain sydd o bwysigrwydd byd-eang, trwy osod placiau 'olwyn goch' arnynt. Cafodd nifer o safleoedd dyfrffordd eu nodi, ac fe lansiwyd y plac cyntaf ar safle Bingley Five Rise, gan ddenu cryn dipyn o gyhoeddusrwydd. Rydym yn gweithio ar nifer o weithgareddau treftadaeth gyda gwirfoddolwyr: gan weithio gyda'r Pocklington Canal Amenity Society i ddehongli'r cledrau haearn a ddefnyddiwyd fel trawstiau cytbwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; clirio chwyn a thyfiant o'r hen odynnau calch yng nglanfa Tardebigge er mwyn gwella mynediad a dehongli'r hanes i ymwelwyr, ac adfer cwt yng ngorsaf bwmpio Crofton ar gamlas Kennet & Avon. Bu gwirfoddolwyr hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'n cynghorwyr treftadaeth ar lu o swyddi gwahanol, gan gynnwys cynorthwyo gyda ffurflenni caniatâd adeiladau rhestredig, ychwanegu gwybodaeth i gronfeydd data treftadaeth ac ymchwilio i gofrestri 'Heritage at Risk' awdurdodau lleol. Fe wnaethom barhau â'n hymgyrch i wella'r asedau 'Heritage at Risk' yn 2010/11, ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar yr hen simnai yng ngorsaf bwmpio Widcombe a'r ddwy bont haearn yng Nghaerfaddon, ar gamlas Kennet & Avon.

Parhaodd y gwaith cynnal a chadw ar dreftadaeth weithiol y dyfrffyrdd a chafodd nifer o asedau treftadaeth o bwysigrwydd hanesyddol eu hailwampio, gan gynnwys lociau Hillmorton yn Rugby, lle cafodd gatiau haearn bwrw o Oes Fictoria eu trwsio a'u hailaddurno'n ofalus cyn eu gosod yn ôl yn siambr y loc. Fel ceidwaid casgliad o asedau treftadaeth o bwys rhyngwladol, mae angen inni ddiweddaru sgiliau ein gweithlu ymroddgar yn gyson. Yn ystod y flwyddyn, aeth mwy o ymgeiswyr nag erioed ar gwrs NVQ3 mewn Sgiliau Treftadaeth. Mae'r cymhwyster hwn, sy'n cael ei hyrwyddo gan English Heritage a'i dderbyn gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn galluogi staff Dyfrffyrdd Prydain i ddatblygu'n weithwyr treftadaeth sydd wedi'u hardystio ar lefel genedlaethol. Mae'r ymgeiswyr yn creu grŵp o hyrwyddwyr treftadaeth crefftus o fewn Dyfrffyrdd Prydain, a dylai'r fenter hon sicrhau y bydd ein hasedau hanesyddol yn cael eu diogelu a'u rheoli am flynyddoedd i ddod.

Denu bywyd gwyllt

Mae camlesi ac afonydd yn goridorau pwysig i fywyd gwyllt, gan ddarparu a chysylltu â chynefinoedd y dref a'r wlad. Maen nhw'n cynnwys amrywiaeth rhyfeddol o gynefinoedd, pob un yn cynnal gwahanol gymunedau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae cadwraeth yn elfen graidd o'n busnes, mae bron pob gweithgaredd a wnawn yn gysylltiedig ag amgylchedd y dyfrffyrdd mewn rhyw fodd, ac mae gennym raglenni penodol i wella ansawdd amgylchedd y dyfrffyrdd. Mae'r prosiectau'n cynnwys: helpu i leoli a mapio symudiadau ystlumod o amgylch dyfrbont Lune; archwilio blychau nythu tylluanod gwynion ar hyd camlas Aire & Calder lle gwelwyd pum nythaid wahanol; ac ailblannu rafftiau cyrs arnofiol sy'n rhoi cyfle i bysgod gladdu wyau, denu gweision y neidr a mursennod a chreu mannau i adar nythu ar Afon Lee. Ni yw partner cyswllt arweiniol y DU ar gyfer dwy rywogaeth o blanhigyn dyfrol prin; llyriad y dŵr (Luronium natans) a gwellt y gamlas (Potamogeton compressus). Fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â phlanhigion goresgynnol, fe wnaethom ddefnyddio gwyfynod yr ŷd 2mm o hyd yn erbyn rhedyn y dŵr (Azolla filiculoides) ar gamlas Bridgwater & Taunton. Rydym yn cynnal gwaith ymchwil ar y niferoedd cynyddol o

gimychiaid afon arwyddol a chimychiaid coch y gors a'u heffaith ar ecosystem a seilwaith dyfrffyrdd mewndirol. Rydym yn plannu hesg sypwellt i adeiladau glannau camlas Kennet & Avon, gan greu llain o wyrddni ar lan y dŵr. Wrth i'r planhigion dyfu a magu gwreiddiau, byddant yn helpu i wau'r pridd a'r gwaddodion gyda'i gilydd, yn atal erydu, yn amddiffyn y glannau ac yn creu cynefin gwych i lygod y dŵr.

Mae planhigion goresgynnol anfrodorol yn destun cryn bryder, ac fe gostiodd dros £650,000 i'w rheoli yn 2010/11. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid a grwpiau gwirfoddol yn lleol a chenedlaethol er mwyn helpu i leihau effeithiau hyn. Yn ystod y llynedd, buom yn cydweithio â Defra a'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol i godi ymwybyddiaeth o'r pryderon sy'n cael eu hachosi gan rywogaethau anfrodorol, ac rydym wedi cyfrannu'n llawn at ddatblygu ffordd naturiol o reoli *clymog Japan*; rhywogaeth sy'n costio £180 miliwn bob blwyddyn i economi Prydain yn ôl yr amcangyfrifon. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i reoli ac atal *dail-ceiniog arnofiol* rhag lledaenu ar sawl camlas gan gynnwys Soar, Lee a Weaver. Rydym wedi datblygu gweithgor i sicrhau arfer gorau wrth gynllunio a blaenoriaethu'n fewnol, ac wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau gwirfoddol fel rhan o'r frwydr yn erbyn rhywogaethau goresgynnol.

Gwella mynediad

Mae cymunedau a sefydliadau lleol yn defnyddio ein camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau i wella amwynderau cyhoeddus lleol a chyflawni pob math o fanteision cyhoeddus. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

Gwelliannau cymunedol ar hyd Afon Lee

Aethom ati i uwchraddio'r llwybr tynnu yn Hackney fel rhan o brosiect cynnal a chadw gwerth £400,000, wedi'i ariannu'n rhannol trwy grant o £250,000 gan fwrdeistref Hackney, Llundain. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod rampiau mynediad sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, trwsio waliau glannau'r afon gan greu llefydd nythu arbennig i adar prin fel gwenoliaid y glennydd o fewn y bricwaith newydd. Yn ogystal â chreu llwybr di-draffig trwy ddwyrain Llundain, bydd ymwelwyr yn gallu defnyddio'r llwybr i gyrraedd y Parc Olympaidd a Lee Valley yn fwy hwylus.

Creu llwybrau gwyrdd a diogel yn Nyffryn Weaver

Ym mis Tachwedd 2010, cwblhawyd gwerth £1.5 miliwn o welliannau mynediad i Ddyffryn Weaver gan gynnwys pont amlbwrpas ar draws yr afon yn lociau Dutton. Mae'r hawliau tramwy cyhoeddus o boptu'r bont yn boblogaidd iawn gyda cherddwyr, beicwyr a marchogion, ac mae'n rhan sylweddol o rwydwaith teithio cynaliadwy Sustrans a llwybr marchogaeth leol. Mae'r bont wedi'i chynllunio'n gydnaws â'r lleoliad gwledig, ac mae'n cynnwys darn sy'n codi er mwyn caniatáu i gychod gwaith gyrraedd y llifddorau hanfodol i lawr yr afon.

Dyfrffyrdd mwy hwylus ac agored i gymunedau Wolverhampton

Mae prosiect dwy flynedd gwerth £425,000 i weddnewid rhan o goridor camlas Wolverhampton wedi gwella mynediad i'r llwybr tynnu ar gyfer pobl anabl, beicwyr a chadeiriau gwthio. Roedd y cynllun gwella hwn, ffrwyth partneriaeth gyda phrosiect New Deal For New Communities cynllun All Saints and Blackenhall Community Development, hefyd yn cynnwys ailosod pafin ar rannau o'r llwybr tynnu a phlannu cyrs i wella bioamrywiaeth.

Canŵio

Mae'r gwaith o uwchraddio'r Tees White Water Course, gwerth £4.6 miliwn, bron â'i gwblhau. Roedd y gwaith yn cynnwys ailwampio'r cwrs presennol ac adeiladu cwrs newydd byrrach. Mae'r safle yn cynnwys pedair sgriw enfawr Archimedes sy'n mesur 12 metr x 3 metr, sy'n cael eu defnyddio i bwmpio dŵr o amgylch y cwrs, a dyma'r cwrs dŵr gwyn cynaliadwy cyntaf yn y DU. Yn ystod y gwanwyn, cafodd ymwelwyr gyfle i weld y cwrs cyn ei

lenwi â dŵr, a chawsant daith o amgylch y safle. Rydym yn gobeithio y bydd timau Olympaidd yn cael eu denu yno i hyfforddi cyn Gemau Olympaidd 2012.

Cychod

Yr hyn sy'n gwneud ein camlesi a'n hafonydd ni'n wahanol i leoedd dŵr eraill yw'r holl gyfoeth amrywiol o gychod newydd a hanesyddol sy'n eu defnyddio, a dyma un o'r prif resymau pam mae pobl yn dychwelyd i ddefnyddio'u llwybr tynnu lleol. Mae nifer y cychod trwyddedig yn dal i gynyddu, ac mae'n 35,241 erbyn hyn. Mae'r nifer sy'n osgoi talu'r drwydded yn sefydlog o gymharu â 4.9% y llynedd. Mae tua hanner ein cwsmeriaid yn ein helpu i leihau ein costau trwy dalu am eu trwydded trwy ddebyd uniongyrchol neu'n talu ar-lein - gyda rhyw 25% yn talu trwy ddebyd uniongyrchol ac 20% o'n cwsmeriaid yn adnewyddu eu trwydded ar-lein, sy'n helpu i leihau ein costau gweinyddu.

	2010/11	**2009/10**
Cychod trwyddedig*	**35,241**	34,944
Trwyddedau wedi'u hadnewyddu ar-lein	**7,254**	6,006
Nifer sy'n osgoi talu'r drwydded	**4.9%**	4.9%

*Mae dadansoddiad o'r mathau gwahanol o drwyddedau cychod ar dudalen 29.

Yn 2010/11, cafodd 885 o leoedd gwag yn ein hangorfeydd hirdymor a reolir yn uniongyrchol, eu hysbysebu ar ein gwefan ocsiwn. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y perchnogion cychod a fanteisiodd ar yr angorfeydd hyn i 60%, oherwydd amodau busnes anodd. Er mwyn helpu cwsmeriaid sy'n dal yn ansicr braidd ynglŷn â'r broses ocsiwn, fe wnaethom lansio cyfleuster 'prynu nawr' am bris penodol, ar gyfer lleoedd heb eu gwerthu. Aethom ati i wella'r trefniadau ar gyfer hysbysebu a gosod angorfeydd dros y gaeaf ar hyd ryw 300 o lwybrau tynnu, ac annog cwsmeriaid angori posib dros y gaeaf i ymchwilio i leoedd mewn marinas a safleoedd angori preifat.

Cwblhawyd archwiliad manwl o'n safleoedd angori a reolir yn uniongyrchol er mwyn pennu a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Cafodd pontynau newydd eu gosod yn angorfeydd Bridgwater a Bardney, a gwnaethom waith diogelwch mewn safleoedd eraill.

Rydym yn ymgynghori â'n cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau mawr sy'n ymwneud â sawl agwedd ar gychod. Roedd newid trefniadau trwyddedu cychod sy'n cael eu cadw at ddibenion busnes, a datblygu cynllun angori lleol ymhlith prif bynciau ymgynghori'r flwyddyn. Bydd y newidiadau i'r broses o drwyddedu cychod busnes yn ein galluogi i deilwra prisiau'n well i adlewyrchu'r amrywiaeth eang o fusnesau hunanlywio, teithwyr a busnesau cychod eraill ledled y dyfrffyrdd.

Yn bwysicach na dim, bydd y Cytundeb Gweithredwyr newydd yn para am bum mlynedd neu fwy fel arfer, gan roi mwy o ryddid i fusnesau gynllunio a sicrhau cefnogaeth ariannol (o gymharu â'r Drwydded Fusnes 12 mis ar hyn o bryd). Mae datblygu cynlluniau angori lleol yn un o flaenoriaethau ein polisi angori cenedlaethol, a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ei hun yn 2009. Mae rhanddeiliaid lleol yn dylanwadu ar y ddau gynllun lleol ar gyfer dyfrffyrdd camlas Kennet & Avon ac Afon Lee.

Pysgota

Pysgota yw un o weithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd Prydain o hyd, ac mae ein camlesi a'n hafonydd yn cynnig adnodd gwych i bysgotwyr o bob gallu, yng nghefn gwlad a'r dinasoedd fel ei gilydd. Ddechrau'r flwyddyn, lansiwyd Grŵp Cynghori Pysgotwyr Prydain er mwyn cael adborth gwerthfawr am ei waith, ac fe aethom i uwchgynhadledd gyntaf Pysgodfeydd a Physgotwyr dan arweiniad Richard Beynon AS, Gweinidog y Dyfrffyrdd. Cafodd y cynllun Waterways Wanderers ymateb da; ond mae clybiau pysgota yn dechrau

teimlo effeithiau'r dirwasgiad, rhwng y ffaith nad oes gan eu haelodau gymaint o arian i'w wario a bod nifer cynyddol o bysgodfeydd dŵr llonydd masnachol yn cael effaith ar glybiau pysgota. Mae rhai clybiau wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn, o'r herwydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, rydym yn gweithio'n galed i wella ein cyfleusterau pysgota, gan gynnwys ailstocio pysgod yng nghronfa ddŵr Butterley, cronfa ddŵr Gailey Upper, cronfa ddŵr Toddbrook ac ar gamlesi'r Shropshire Union a'r Staffs & Worcester. Mae syniadau eraill yn cynnwys cynnal cystadlaethau cenedlaethol mewn partneriaeth â'r Angling Trust ym Mhencampwriaethau'r Dŵr Llonydd a chyda Milton Keynes Angling Association yn y Pencampwriaethau Camlas i Ieuenctid ar gamlas Grand Union. Cynhaliwyd trafodaethau gyda chlybiau pysgota lleol a'r Angling Trust ynglŷn â'r pryderon dros ddatblygu cynlluniau trydan dŵr.

Llwythi

Yn ystod y flwyddyn, cafodd tua 1.5 miliwn o dunelli o lwythi eu cludo ar gamlesi ac afonydd Cymru a Lloegr, sy'n llai na'r blynyddoedd blaenorol. Y rheswm pennaf am hyn yw bod llai o alw am agregau, prif gynheiliaid llwythi llongau'r dyfrffyrdd, oherwydd y sefyllfa economaidd. Er hynny, mae nifer o drefniadau cludo llwythi newydd wrthi'n cael eu sefydlu yn Swydd Efrog. Mae dau fusnes cludo llwythi peilot (agregau a choed) newydd ddechrau ar Afon Trent hefyd, yn sgil prosiect datblygu cludiant dŵr wedi'i ariannu gan East Midlands Development Corporation / East Midlands Regional Assembly gyda chefnogaeth cynghorau Nottinghamshire a Lincolnshire, Commercial Barge Operators Association a Dyfrffyrdd Prydain.

Gwaith adfer

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn bwrw ymlaen â phrosiectau adfer camlesi sy'n dod â bywyd newydd i gymunedau lleol, gan gynnwys:

Bow Back Rivers Ym mis Gorffennaf 2010, hwyliodd llynges o gychod heibio loc City Mill am y tro cyntaf ers deugain mlynedd yn sgil gwaith adfer gwerth £475,000. Yn ardal y Parc Olympaidd, rydym wedi trwsio 2.4 cilomedr o waliau'r ddyfrffordd a byddwn yn creu llwybr tynnu newydd 4 metr o led i gerddwyr, beicwyr, pysgotwyr a defnyddwyr cychod, a fydd ar agor yn fuan wedi Gemau Olympaidd 2012. Hefyd, mae dros 2.5 cilometr o gynefin newydd ar lannau'r gamlas bellach ar waith i wella'r amgylchedd dyfrol. Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi gwneud gwerth £750,000 o waith carthu a gwelliannau i seilwaith Waterworks River er mwyn hwyluso angorfeydd y dyfodol, ac mae cam cyntaf y gwaith o adnewyddu loc Carpenter's Road wedi'i gwblhau, yn barod ar gyfer y Gemau.

Camlesi Droitwich Cwblhawyd y gamlas i fadau ym mis Medi 2010, a hwyliodd cwch i ganol Droitwich am y tro cyntaf ers 80 mlynedd. Yn fuan wedyn, agorodd rhan o gamlas Junction wedi'i sianelu i gychod ym Mehefin 2011 cyn yr agoriad swyddogol yng Ngorffennaf 2011. Y cam cyntaf fydd adeiladu marina ag angorfa i 239 o gychod, mae dau gais marina arall yn cael eu hasesu a chynllun ceidwad gwirfoddol yn cael ei sefydlu i barhau â gwaith gwirfoddol ers 37 mlynedd.

Basn Bancroft, Stratford Upon Avon

Mae gwaith adfer gwerth £3m yng ngerddi a basn Bancroft yn agored i bawb ers ailagor Theatr yr RSC yn Stratford upon Avon. Mae'r safle'n denu miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a bellach gallant fwynhau'r gerddi newydd a bwrlwm bywyd y gamlas a mynediad gwell i ardal y basn.

Adfywio

Mae adfywio ardaloedd lleol yn gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl leol, ac rydym yn dal i helpu i adfywio trefi a dinasoedd gan gynnwys cyfrannu at gynlluniau mewn llefydd fel Nottingham, Wakefield, Loughborough, Burscough a Llundain yn ystod y flwyddyn.

Meadow Lane, Nottingham Dyma brosiect gwerth £2 miliwn i greu llwybr gwyrdd, di-draffig, i ganol dinas Nottingham ar gyfer cerddwyr, beicwyr, defnyddwyr cychod ac ymwelwyr anabl, trwy greu cyswllt allweddol pwysig rhwng y llwybr tynnu presennol a Victoria Embankment. Bellach, mae'n ganolbwynt cylchdaith 10 milltir a elwir y 'Big Wheel', ac yn parhau i gynnig mynediad i'r ddyfrffordd.

Wakefield Waterfront, Wakefield Cwblhawyd y gwaith o adeiladu a llenwi oriel newydd Hepworth ar y glannau yn Wakefield, sy'n dathlu'r cerflunydd Barbara Hepworth a aned yn y ddinas. Agorodd yr oriel yn swyddogol i'r cyhoedd ym mis Mai 2011 ar safle amlwg Dyfrffyrdd Prydain ar lan Afon Calder, a'r gobaith yw denu 140,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

West Midlands Future Jobs Fund Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu 200 o bobl ddi-waith yn creu gwelliannau i'r dyfrffyrdd fel rhan o raglen mewn partneriaeth â Groundwork ledled ardal fetropolitan gorllewin canolbarth Lloegr. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cynnwys uwchraddio'r llwybrau tynnu a gwaith cynnal a chadw a nodwyd gan gwsmeriaid a phartneriaid lleol. Er enghraifft yn Selly Oak, cafodd llwybr tynnu pwysig ei drwsio i'w wneud yn fwy hwylus i bawb.

Loughborough Llwyddodd ein cydfenter H2O Urban, i ennill caniatâd cynllunio manwl ar gyfer gwesty Travelodge 87 gwely ac uned siopa/hamdden ar y llawr isaf, ar blot terfynol Basn Loughborough. Bydd H2O yn dechrau ar y gwaith ym Mehefin 2011. Byddwn yn cadw'r adeilad gorffenedig yn ein portffolio buddsoddi, gan ennill incwm pwysig i'w wario ar ein dyfrffyrdd. Bydd hyn yn cwblhau gwaith adfywio'r safle sydd eisoes yn cynnwys llety i 179 o fyfyrwyr, dwy uned hamdden a chyfleusterau cychod o amgylch basn ag angorfeydd.

Burscough Buom yn gweithio gyda datblygwr lleol a Burscough Moving Forward i sicrhau'r gwaith o ailddatblygu hen swyddfa a gweithdy Dyfrffyrdd Prydain, fel rhan o gynlluniau'r cyngor i adfywio Burscough. Agorodd y cynllun defnydd cymysg ym mis Chwefror 2010, ac mae'n cynnwys siopau, bwyty, oriel gelf, swyddfeydd, cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau gwasanaethau cwsmeriaid newydd Dyfrffyrdd Prydain.

Clayton Triangle (Glanfa Enfield) Mewn partneriaeth â thirfeddianwyr cyfagos, fe wnaethom ni - fel partner arweiniol - lwyddo i sicrhau caniatâd cynllunio manwl ar gyfer prosiect adfywio mawr ar gyrion Accrington. Byddwn yn ailddatblygu safle tir llwyd 3.03 ha (7.5 erw) ar ochr y gamlas ac yn creu 129 o unedau preswyl teuluol yn bennaf ac yn adnewyddu dau adeilad rhestredig Gradd 2 sy'n eiddo i Dyfrffyrdd Prydain.

Basn City Road, Llundain Rydym yn parhau i wneud cynnydd rhagorol gyda'n gweithgareddau adfywio yn City Road. Wedi'r llwyddiant o ddarparu lle cyhoeddus newydd ym mlaenau'r basn, wedi'i ariannu gan Section 106 a Swyddfa Llywodraeth Llundain, sicrhawyd cytundeb gyda'r Family Mosaic Housing Trust i Dyfrffyrdd Prydain (a'i Bartneriaid) gyflenwi 100 o fflatiau fforddiadwy. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda, a chynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen gyda Maeres ac Arweinydd Cyngor Islington ym mis Mawrth. Yn sgil contract amodol, disgwylir mai cam nesaf y cynllun adfer fydd codi 200 o fflatiau preifat yn ddiweddarach eleni.

ADOLYGIAD CYMRU

Eleni, gwelwyd cynnydd cyson o safbwynt cyfraniad posibl a phendant ein dyfrffyrdd er lles a ffyniant Cymru. Mae llawer mwy o sylw a chydnabyddiaeth i hyn bellach, gydag astudiaethau achos wedi'u cynnwys yn adroddiad *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru* (Medi 2010) a *South East Wales Spatial Plan Networked Environment Region Report* (Mehefin 2010).

Diolch i bartneriaethau hynod lwyddiannus â Sustrans, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, cafwyd buddsoddiad rhagorol o £1.4 miliwn mewn bron i ddeg milltir o lwybrau tynnu ledled y pedair camlas, gan annog mwy o bobl i fwynhau cefn gwlad a defnyddio dulliau teithio cynaliadwy.

Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori Cymru

Parhaodd Grŵp Cynghori Cymru i roi arweiniad strategol a chefnogi'r broses o ddatblygu cysylltiadau gwleidyddol a chymunedol ym mhob cwr o Gymru. Bydd cyngor ac arweiniad y Grŵp yn hollbwysig wrth inni feithrin cysylltiadau cryfach â Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir a phartneriaid eraill wrth i ni symud ymlaen at gymdeithas sifil.

Trwy ddarparu ysgrifenyddiaeth i Grŵp Hollbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddyfrffyrdd, cynhadledd lwyddiannus mis Mehefin ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf, a'n cyfraniad i'r Gynhadledd Dyfrffyrdd Trefol a gynhaliwyd yn Aberhonddu ym mis Mawrth, cawsom gyfle i rannu arferion gorau a dangos sut y gall dyfrffyrdd helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.
Yn ystod y flwyddyn hefyd, cafodd Dyfrffyrdd Prydain wahoddiad i ymuno â'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol, Grŵp Llywio Gweithredu Diwylliannol Gogledd Cymru a'r Grŵp Amgylchedd Treftadaeth, a chyflwyno tystiolaeth i'r 'Ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru', cyn i'r adroddiad hwnnw gael ei lansio yn y Gynhadledd – y cyfan yn ychwanegu at ein gallu i gyfrannu i fywyd dinesig. Mae cysylltiadau rheolaidd ag Aelodau Cynulliad ac ASau yn rhan bwysig o'n gwaith o hyrwyddo gwerth ehangach ein dyfrffyrdd.

Partneriaethau

Rydym wedi meithrin cysylltiadau cryfach gyda Sustrans, Cymdeithas y Cerddwyr a Canŵ Cymru. Rydym wedi gosod swyddfa Dyfrffyrdd Cymru yn Burgedin ar Gamlas Maldwyn i Canŵ Cymru, gyda'r bwriad o droi'n Ganolfan Dŵr Llonydd Genedlaethol Cymru. Bydd hyn yn ategu'r buddsoddiad a wnaed trwy gronfa Sblash, ac o ddatblygu llwybrau canŵio cychwynnol gyda Croeso Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dyfrbont Pontycysyllte - Safle Treftadaeth y Byd

Ers i Dyfrbont Pontcysyllte a Chamlas Llangollen ennill statws Safle Treftadaeth y Byd rydym wedi parhau i gyflwyno rhai o elfennau allweddol y Cynllun Rheoli trwy Grŵp Llywio Safle Treftadaeth y Byd, is-grwpiau a Chynllun Gweithredu Diwylliannol Gogledd-ddwyrain Cymru. Rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y cymunedau ar hyd yr 11 milltir hwnnw, gan gynnwys ardaloedd Cefn Mawr ac Acrefair sydd wedi'u taro'n ddrwg yn sgil colli swyddi gweithgynhyrchu, yn gallu elwa ar y statws sy'n gysylltiedig â Safle Treftadaeth y Byd.

Ymgysylltu â'r gymuned

Cafodd grŵp 'Aqueducks' – cyfeillion Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte – ei sefydlu y llynedd. Mae'r grŵp yn gwneud cyfraniad pwysig wrth drefnu digwyddiadau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd a meithrin sgiliau, er enghraifft, trwy wneud sesiynau gweithgareddau treftadaeth a bioamrywiaeth a thrwy annog aelodau'r gymuned i hyfforddi'n arweinwyr a thywyswyr y bathodyn gwyrdd.

Byddwn yn dathlu deucanmlwyddiant Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn 2012. Mae blwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ar y gweill, yn ychwanegol at y 21 o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn 2011 trwy Brosiect Tirweddau Anghofiedig Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Gwaith adfer

Mae gwirfoddolwyr yn dal i adfer rhannau o Gamlas Mynwy yng Nghymru a thros y ffin, ac mae ein partneriaid wedi rhoi hwb i'r gwaith hwn yn ddiweddar trwy ariannu swydd rheolwr

datblygu i chwilio am geisiadau ariannol trydydd parti. Rydym hefyd yn parhau i gynnig cyngor ar waith adfer ar ddyfroedd nad ydynt dan ofal Dyfrffyrdd Prydain.

ADOLYGIAD YR ALBAN

Blwyddyn bwysig

Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am noddi ac ariannu gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban. Ddechrau Tachwedd, cyhoeddodd gweinidogion yr Alban eu bwriad i gadw Dyfrffyrdd Prydain yr Alban (asedau a gweithredoedd) o fewn y sector cyhoeddus. Dyma gychwyn proses gymhleth o ddadgyfuno a fydd yn para hyd Ebrill 2012, pan fydd Dyfrffyrdd Prydain yn troi'n gorff elusennol yng Nghymru a Lloegr.

Rôl gyhoeddus ehangach

Ym mis Rhagfyr, lansiodd llywodraeth yr Alban ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r cyfleoedd i greu rhagor o fanteision cyhoeddus o seilwaith dŵr yr Alban, gan gynnwys camlesi. Mae gwaith ymchwil diweddar i allu camlas Forth & Clyde yn cadarnhau y gallai dyfrffyrdd yr Alban wneud cyfraniad ystyrlon at reoli llifogydd a draeniad trefol yn arbennig. Ymatebodd Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn gadarnhaol i'r ymgynghoriad, gan ddweud y gallai dyfrffyrdd yr Alban chwarae eu rhan trwy gyfrwng partneriaethau cydweithredol yn y sector cyhoeddus.

Mesurau i sicrhau arbedion

Daeth y cylch grant tair blynedd i ben trwy ddyfarnu £11.5 miliwn ar gyfer 2010/2011 (2009/10: £11.8 miliwn) a llwyddiant fu ein hymdrechion i gwrdd â tharged llywodraeth yr Alban o arbed £0.75 miliwn.

£10 miliwn yw ein grant ar gyfer 2011/12, 13% yn llai nag eleni. Cafodd Dyfrffyrdd Prydain yr Alban gyllideb blwyddyn, fel pob corff cyhoeddus arall yn y wlad. Byddwn yn gorfod gwneud arbedion pellach o 3% hefyd.

Mae hwn yn ostyngiad sylweddol iawn i'n cyllideb, er nad yn gwbl annisgwyl yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni. Mae Dyfrffyrdd Prydain yr Alban wedi cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ychwanegol gan gynnwys cynnig diswyddiad gwirfoddol a llai o oriau gwaith i staff swyddfa, lleihau lefelau staff tymhorol 25%, rhoi blaenoriaeth i waith cynnal a chadw ataliol ac uwchsgilio gweithwyr dyfrffyrdd er mwyn lleihau gwaith contract.

O gofio'r hinsawdd economaidd anodd felly, rydym wedi llwyddo i sicrhau cynnydd da yn ein holl feysydd busnes gan ystyried dibenion ac amcanion strategol Llywodraeth yr Alban ar gyfer gwlad gyfoethocach a thecach, iachach, diogelach a chryfach, doethach a gwyrddach.

Cyfoethocach a thecach; diogelach a chryfach

Gan weithio law yn llaw â'n partneriaid, fe wnaethom gynnydd sylweddol o ran ein prosiectau creu lleoedd a chyrchfannau twristiaeth pwysig.

Prosiect adfer camlas Glasgow

Gwnaethom fwrw ymlaen â'r prosiect 15 mlynedd i adfer camlas Glasgow law yn llaw â'n partneriaid, Cyngor Dinas Glasgow a'r gyd-fenter ISIS. Ymunodd y Royal Scottish Academy of Music and Drama â'r ardal greadigol o fri yn Speirs Locks yn

achlysur agor Speirs Locks Studios gwerth £6 miliwn. Cafodd rhan o'r hen ffatri lud ei hailwampio'n lle ymarfer ar gyfer y National Theatre of Scotland a chanolfan arddangosfa a digwyddiadau.
Cawsom denant newydd cyffrous ar gyfer hen adeilad Whisky Bond - sef y Glasgow Sculpture Studios. Penllanw'r Landscape Link sy'n cysylltu canol dinas Glasgow â chamlas y Forth & Clyde oedd y Phoenix Flowers – llwybr sy'n cynnwys 52 o 'flodau' mawr metel, lliwgar. Cwblhawyd y 35 cartref cyntaf yn Maryhill Locks ar gyfer y Maryhill Housing Association, a dechreuodd y gwaith ar Gam Dau, sef datblygiad £17 miliwn i godi 125 o dai newydd.

Edinburgh Quay

Ar ôl cwblhau Edinburgh Quay yn llwyddiannus, cafodd potensial coridor y gamlas newydd ei gydnabod gan Gyngor Dinas Caeredin trwy ddechrau datblygu'r Edinburgh Canal Strategy. Cyhoeddodd Lloyds Banking Group gynlluniau i greu ardal myfyrwyr ac ardal ddiwylliannol werth biliynau o bunnoedd a fydd, ochr yn ochr â datblygiadau trydydd parti eraill, yn hwb pellach i Edinburgh Quay.

Coridor camlas Falkirk - Grangemouth

Gyda'n partner Cyngor Falkirk, cawsom ganiatâd cynllunio i godi datblygiad cymysg ar safle 58 erw sy'n ymestyn o Olwyn Falkirk ac sy'n cynnwys tai preswyl, cyfleusterau hamdden/siopa a lle masnachol sy'n cwmpasu'r Union Inn, gwesty a marina newydd.

Bydd y datblygiad newydd yn cynnwys mynedfa parcdir newydd i Olwyn Falkirk. Bydd hyn, yn ogystal â llwybrau cerdded newydd a phaneli dehongli newydd; lle chwarae newydd i blant; a chamlas fach newydd yn ychwanegu at un o brif atyniadau'r Alban.

Dechreuodd cam cyfalaf prosiect Helix, gwerth £43 miliwn, i weddnewid 300 hectar o dir segur rhwng Grangemouth a Falkirk yn barc newydd bywiog. Bydd y cyfleuster cymunedol ac atyniad twristiaid newydd hwn, a fydd yn agor yn 2013, yn cynnwys mynedfa ddwyreiniol well i gamlesi'r iseldir ac estyniad i gamlas y Forth & Clyde, lle bydd dau gerflun o gŵn Kelpie neu geffylau dŵr 30 metr o uchder yn sefyll.

Camlas y Caledonian

Aeth Dyfrffyrdd Prydain yr Alban ati i fuddsoddi mewn estyniad sylweddol i Seaport Marina, Inverness, fel rhan o'n dyheadau ehangach i adfywio ardal sy'n rhan o gynllun lleol newydd.

Ar y cyd â'n partneriaid, The Vivat Trust, cyhoeddwyd cynlluniau gennym i adfer goleudy Bona (rhestredig gradd 'B') ar Loch Ness, un o'r goleudai lleiaf â chriw yn y DU yn ôl pob tebyg. Rydym yn gobeithio mai dyma'r cyntaf mewn cyfres o adeiladau hanesyddol ar hyd camlas y Caledonian a gaiff eu cynnal fel llety gwyliau gan y bartneriaeth.

Enillodd camlas y Caledonian wobr yr atyniad ymwelwyr gorau yng ngwobrau Highlands and Islands Tourism Awards, a chafodd ein prosiect partneriaeth The Great Glen Ways gydnabyddiaeth gyda gwobr Waterways Renaissance.

Gydol y flwyddyn, fe wnaethom helpu i lywio'r economi twristiaeth trwy bartneriaeth marchnata. Roedd camlas y Caledonian yn gyrchfan allweddol yn ymgyrch 'My Perfect Day' VisitScotland. Cafodd dwy bartneriaeth twristiaeth newydd eu lansio yn ystod y flwyddyn: The Heart of Argyll Tourism Alliance a Scotland's Heartland.

Gwyrddach

Cymerwyd camau breision i wireddu ein dyhead i ddefnyddio camlesi fel dewis amgen cynaliadwy a chost-effeithiol i leihau peryglon llifogydd a draenio trefol. Fe wnaethom gyfrannu ymhellach at bartneriaeth arloesol Metropolitan Glasgow Strategic Drainage Partnership gan barhau i ystyried ein cyd-ddyheadau ar gyfer camlas newydd Lomond, a fyddai'n lliniaru peryglon llifogydd ac yn sbarduno gwaith adfer sylweddol, ledled y coridor, gyda Chyngor West Dunbartonshire.

Gyda'n partneriaid Cyngor Dinas Glasgow a'r Glasgow and Clyde Valley Green Network, cychwynnodd ein gwaith arloesol ar becyn cymorth i bennu gwerth amgylcheddol camlas, sy'n cydbwyso anghenion y dreftadaeth adeiledig a naturiol ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Hefyd, fe wnaethom sefydlu Cynllun Rheoli Carbon er mwyn gostwng allyriadau carbon 25% ledled y busnes erbyn 2015.

Iachach

Fe wnaethom barhau i gefnogi ymgyrch Llywodraeth yr Alban i gynyddu'r niferoedd sy'n byw bywydau egnïol, gan arbed hyd at £10 miliwn i'r gwasanaethau iechyd yn ôl gwaith ymchwil cynnar, trwy ddarparu a hyrwyddo llefydd gwyrdd a glas o'r radd flaenaf ar gyfer amwynderau, hamdden a chymudo.

Er inni fynychu llai o ddigwyddiadau, fe wnaethom lwyddo i ymgysylltu â 160,000 o bobl yr un fath (2009/10: 209,000). Sefydlwyd grŵp gwirfoddolwyr y Lowland Canals Volunteer Group yn cynnwys cymdeithasau camlesi, elusennau glan y dŵr, a mentrau cymdeithasol, gan eu hannog i fod yn gyfrifol am ymgysylltu pobl leol â'u dyfrffyrdd lleol. Prosiect mawr cyntaf y Grŵp oedd Union 10 – digwyddiad gyda llynges i ddathlu dengmlwyddiant ailagor camlas yr Union a ddenodd tua 15,000 o bobl. Mae cynlluniau ar droed hefyd i ddathlu dengmlwyddiant camlas y Forth & Clyde ac Olwyn Falkirk.

Parhaodd The Waterways Trust Scotland (TWTS) i ymgysylltu â'r gymuned leol a'r sector gwirfoddol, gan lwyddo i godi £1.1 miliwn sy'n well na'r targed ar gyfer eleni, a denu 12,233 o bobl i gymryd rhan trwy fentrau o fri Action Outdoors Activity and Learning Centre, The Green Action Project (Falkirk), Feet First, Scents & Sensitivities yn Auchinstarry, cynlluniau gwella camlas Monkland a Bigman 3, Glasgow. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i ddenu 812 o wirfoddolwyr unigol hefyd (2009/10: 655) a gyflwynodd 968 o ddiwrnodau gwirfoddol, gwerth £59,125.

Lansiodd Dyfrffyrdd Prydain yr Alban wefan ryngweithiol ar gyfer camlesi'r wlad - www.scottishcanals.co.uk er mwyn ychwanegu at y 24 miliwn o ymweliadau â'r llwybrau tynnu bob blwyddyn, a dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu gwefan well ar gyfer Olwyn Falkirk.

Aethom ati i ddatblygu cyfleusterau newydd ar gyfer cychod padlo, sef y math o chwaraeon dŵr sy'n tyfu gyflymaf. Gosodwyd pontynau canŵod a phaneli cyfeirio ar y Great Glen Canoe Trail, ein prosiect partneriaeth ar gamlas y Caledonian a fydd yn

agor yn 2012. A chyflwynwyd cais cynllunio i greu Glasgow Paddlesports Centre ar hen safle diwydiannol ger camlas y Forth & Clyde yn Glasgow, gyda chefnogaeth cant o badlwyr a sefydliadau unigol.

Doethach

Crëwyd camlas fechan ac ystafell ddosbarth awyr agored yn Olwyn Falkirk. Gyda chymorth Prifysgol Glasgow, rydym wedi dechrau gweithio ar brosiect pwysig i roi ein harchifau 200 mlwydd oed ar gof a chadw digidol. Fe wnaethom barhau i gefnogi amrywiaeth o fentrau addysgol wedi'u cydlynu gan gymdeithasau camlesi, mentrau cymdeithasol a TWTS gan gynnwys teithiau cychod Wildlife Safari / Heritage Hunt ar gyfer 400 a mwy o blant ysgol Glasgow bob blwyddyn. Hefyd, sefydlwyd rhaglen uwchsgilio ar gyfer gweithwyr y glannau ledled yr Alban.

Rhwydwaith cefnogol

Yn ogystal â'n partneriaid niferus o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn yr Alban, rydym yn ddyledus i aelodau gwirfoddol Dyfrffyrdd Prydain yr Alban. Maent yn arbenigwyr ym meysydd masnach, yr amgylchedd a gwirfoddoli, ac wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr mewn blwyddyn o newidiadau.

Y DYFODOL

Wrth gyflwyno ein cynigion cyntaf yn 2009 i ddod yn elusen, roeddem yn credu y gallai gymryd deng mlynedd i'w gwireddu. Nawr, prin ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r cynigion ar fin cael eu gwireddu ac rydym wrthi'n creu dyfodol cynaliadwy hirdymor i ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr yn y sector elusennol. Bydd dyfrffyrdd yr Alban yn parhau yn nwylo'r cyhoedd ac, yn y tymor hir, gallant fod yn rhan o gynlluniau arloesol Llywodraeth yr Alban i reoli'r dyfroedd yn fwy strategol. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban a Defra i sicrhau bod y broses ddadwahanu yn amserol a ddidrafferth.

Elusen dyfrffyrdd newydd yng Nghymru a Lloegr

Gan weithio gyda Defra, rydym yn gwneud cynnydd rhyfeddol o dda ac yn barod i lansio'r elusen ym mis Ebrill 2012 os aiff popeth yn iawn o ran taith y Mesur Cyrff Cyhoeddus drwy senedd San Steffan a fydd yn galluogi i Dyfrffyrdd Prydain (Cymru a Lloegr) droi'n elusen ddyfrffyrdd newydd.

Dyma grynodeb o brif gerrig milltir y llynedd:

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i drosglwyddo dyfrffyrdd mewndirol Cymru a Lloegr i gorff elusennol newydd gan adeiladu ar argymhellion Dyfrffyrdd Prydain i sefydlu 'ymddiriedolaeth genedlaethol' ar gyfer y dyfrffyrdd.

Gydol fis Ionawr, cynhaliwyd gwaith ymchwil i brofi'r enwau posibl ar gyfer yr elusen ddyfrffyrdd newydd, a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn ymgynghoriad ehangach Defra.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn bwriadu symud dyfroedd mordwyaeth Asiantaeth yr Amgylchedd i elusen newydd yn 2015, yn amodol ar arian digonol.

Aeth Defra ati i benodi panel cynghori annibynnol er mwyn helpu i recriwtio Ymddiriedolwyr Pontio i weithio fel Bwrdd cysgodi a chynrychioli buddiannau'r elusen hyd nes y bydd ar waith.

Ym mis Mawrth, lansiodd y llywodraeth ymgynghoriad tri mis, A *New Era for the Waterways*, a oedd yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer elusen ddyfrffyrdd newydd i fod yn berchen ar a rheoli'r dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys sut y bydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i

gymunedau warchod eu camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau lleol. Edrychwn ymlaen at weld y canlyniadau yn yr hydref.

Mae'r tair Partneriaeth Dyfrffyrdd Lleol arbrofol bellach ar waith. Maent yn gweithio gyda rheolwyr dyfrffyrdd lleol ac yn eu cynghori, ac yn hyrwyddo buddiannau'r rhwydwaith ar gamlas y Kennet & Avon, yng ngorllewin canolbarth Lloegr ac yng ngogledd-orllewin Lloegr. Yn amodol ar ymgynghoriad Defra, bydd partneriaeth dyfrffyrdd lleol yn cael eu ffurfio ym mhob bob un o 11 rhanbarth gweinyddol y dyfrffyrdd eraill yng Nghymru a Lloegr

Ym mis Mai, penododd Defra wyth ymddiriedolwr sylfaen, sef cyfuniad o bum ymddiriedolwr newydd a thri aelod o fwrdd Dyfrffyrdd Prydain sydd â chyfoeth o brofiadau a gwybodaeth i sicrhau'r dechrau gorau posib i'r elusen.

Lynne Berry Prif Weithredwr WRVS
John Bridgeman Aelod o Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain ac arbenigwr blaenllaw mewn cystadleuaeth a masnachu teg
Jane Cotton Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Oxfam
John Dodwell Ymgyrchydd dros y dyfrffyrdd a chyn-gadeirydd Cymdeithas Gweithredwyr Cychod Masnachol
John Dodwell Ymgyrchydd y dyfrffyrdd
Tom Franklin Prif Weithredwr Ramblers
Tony Hales Cadeirydd Dyfrffyrdd Prydain a chadeirydd yr ymddiriedolwyr
Nigel Hugill Aelod o Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain a chadeirydd/cynghorydd ar nifer o fusnesau datblygu eiddo mawr
Simon Thurley Prif Weithredwr English Heritage

Edrych ymlaen at lansio'r elusen yn 2012

Rydym ni wedi llwyddo i gyflawni gwaith rhyfeddol mewn cwta dwy flynedd, a hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a hyrwyddo'r cynllun i droi'n elusen.

Erbyn hyn, mae'r Ymddiriedolwyr Pontio yn goruchwylio'r ffrydiau gwaith sy'n amrywio o gynllun manwl y trefniadau llywodraethu, i'r enw a'r logo newydd, ac o'r strategaeth codi arian i baratoi ein pobl ar gyfer gweithio yn y trydydd sector. Y brif flaenoriaeth, fodd bynnag, yw trin a thrafod y contract gyda'r llywodraeth - contract a fydd yn pennu faint o arian cyhoeddus fydd ar gael i ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr am y deng mlynedd nesaf o leiaf.

Efallai mai prif fantais yr elusen ddyfrffyrdd newydd fydd cynyddu rôl pobl leol, cwsmeriaid a chefnogwyr lleol, drwy gydweithio'n greadigol ac adeiladol er budd cyffredin. Trwy'r partneriaethau hyn y byddwn yn manteisio ar wir botensial camlesi ac afonydd Cymru a Lloegr, ac yn eu gwarchod i genedlaethau'r dyfodol.

AELODAU'R BWRDD

Tony Hales CBE, Cadeirydd

Tony yw cadeirydd Workspace Group ccc a Chadeirydd Ymddiriedolwyr Cronfa Bensiwn NAAFI. Mae'n ymddiriedolwr Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru a SSVC, gwasanaeth darlledu'r lluoedd arfog. Cyn hyn, ef oedd prif weithredwr Allied Domecq, cyfarwyddwr anweithredol Banc HSBC ccc, Dŵr Cymru ccc ac Aston Villa ccc, a chadeirydd NAAFI Cyf. 62 oed. **(D, F, G)**

John Bridgeman CBE TD, Is-gadeirydd

Ymunodd John â'r Bwrdd yn 2006. Mae'n gyn-gadeirydd Fair Trading, yn aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau ac yn Brif Swyddog Gweithredol British Alcan Aluminium ccc.

Mae hefyd yn gyfarwyddwr rheoleiddiol ac yn Ymddiriedolwr Pensiwn y British Horseracing Authority, cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Safonau Cyngor Swydd Warwig, comisiynydd cwynion Direct Marketing Authority ac yn Ymddiriedolwr hirsefydlog gydag elusennau yn Swydd Rydychen. Mae'n aelod o Bwyllgor Ombwdsmon y Dyfrffyrdd ac yn gadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru. 65 oed. **(A, B, D, F, H)**

John Bywater
Mae John yn gyfarwyddwr anweithredol Low Carbon Workplace Cyf, is-gwmni'r Ymddiriedolaeth Garbon. Ef yw rheolwr gyfarwyddwr Caddick Developments yn Swydd Efrog, cyfarwyddwr anweithredol Workspace Group ccc a Realis Estates ccc.
Mae John hefyd yn gyn-gyfarwyddwr gweithredol Hammerson ccc, un o gwmnïau'r Can Cwmni iddo ymddeol yn 2007. Mae John hefyd yn ymddiriedolwr Opera North, Leeds. Age 63. **(C, G)**

Maggie Carver
Mae Maggie yn gyn-ariannwr a chyfarwyddwr anweithredol i nifer o gwmnïau, yn bennaf yn y cyfryngau. Ar hyn o bryd, mae'n gadeirydd Independent Television News Cyf (ITN), ac mae'n aelod o fwrdd The Eden Project a'r British Board of Film Classification. Mae Maggie hefyd yn rheolwr gyfarwyddwr Milton Keynes Mobility Cyf, busnes sy'n gwerthu nwyddau i bobl anabl a'r henoed, sy'n golygu bod ganddi wybodaeth am faterion mynediad. 46 oed. **(C, D)**

Rodney Green
Ymunodd Rodney â'r Bwrdd ar 1 Mai 2009. Ef yw Prior Lloegr a'r Ynysoedd, Priordy Sant Ioan. Mae'n ymddiriedolwr A Rocha International, asiantaeth gadwraeth sy'n gweithio'n rhyngwladol. Yn y gorffennol, bu'n brif weithredwr Cyngor Dinas Caerlŷr, yn ogystal â phrif weithredwr cynorthwyol Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, a Swyddog Addysg Sirol Cynorthwyol, Cyngor Surrey. Fe wasanaethodd hefyd ar banel cynghori cenedlaethol Cyllun Beacon sy'n rhannu enghreifftiau o ragoriaeth ac arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus; a'r Migration Impacts Forum. 58 oed. **(B)**

Dr. Jon Hargreaves CBE
Ymunodd Jon â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2008 er mwyn cynrychioli buddiannau'r Alban yn sgil ei brofiad helaeth yn y diwydiant dŵr – yn fwyaf diweddar fel prif weithredwr Scottish Water. Mae hefyd yn Gadeirydd Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban. Mae John yn aelod anweithredol o'r Baltic Centre for Contemporary Arts, Gateshead, a The Port of Tyne Trust. Mae ganddo 35 mlynedd o brofiad yn y diwydiant dŵr a phrofiad o'r marchnadoedd tramor hefyd. 61 oed. **(E, C)**

Nigel Hugill
Nigel yw cadeirydd y pwyllgorau archwilio ac eiddo. Mae'n gyfarwyddwr gweithredol Urban & Civic ac yn gyn-gadeirydd Lend Lease Europe a rheolwr gyfarwyddwr Chelsfield ccc (busnesau datblygu eiddo mawr). Ef yw cadeirydd y pwyllgor melin drafod trefol, Centre for Cities, a chadeirydd pwyllgorau prosiect strategaeth a chyfalaf ystadau y London School of Economics, lle mae'n aelod o'r Cyngor. Mae hefyd yn gadeirydd y pwyllgor sy'n goruchwylio'r datblygiad arfaethedig yn Tate Britain. Mae'n gyn-gynghorydd arbennig i'r Homes and Communities Agency, yn aelod o'r Independent Transport Commission ac yn ymddiriedolwr a thrysorydd yr Architecture Foundation. 53 oed. **(B, D, G)**

Eric Prescott
Eric yw prif weithredwr Havelock Europa ccc - un o gwmnïau gweithgynhyrchu a gosod mwyaf blaenllaw'r DU ym maes adwerthu ac addysg. Mae ei swyddogaethau blaenorol yn cynnwys prif weithredwr Leonard Cheshire Disability, cyfarwyddwr anweithredol LogiKal Cyf - darparwr gwasanaethau rheoli rhaglenni - a Llywydd a rheolwr gyfarwyddwr ALSTOM UK a chwmnïau seilwaith eraill y DU. Fel cyn aelod o bwyllgor llywyddion y CBI, bu'n gweithio ar

faterion cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd. Mae'n bysgotwr brwd, ac wedi pysgota ar gamlesi'r DU ers dros 45 mlynedd. 54 oed. **(A, B)**

Pommy Sarwal
Mae Pommy yn aelod anweithredol o fyrddau The Port of London Authority, Christie Group ccc, Chatham Historic Dockyard Trust, a Hyde Housing Association. Mae hefyd yn gadeirydd y Master Ropemakers Cyf a Venners Cyf. Mae gan Pommy brofiad helaeth ym maes rheolaeth ariannol yn y sectorau preifat a chyhoeddus ac mae'n gyn bartner cyllid corfforaethol yn Deloitte ac yn aelod o'r Grŵp Cynghori ar Borthladdoedd yn Is-adran Masnach a Buddsoddiadau'r DU yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn materion treftadaeth a chadwraeth. 60 oed. **(B, F)**

Duncan Sutherland
Ymunodd Duncan â'r Bwrdd er mwyn cynrychioli buddiannau'r Alban.
Ef yw rheolwr gyfarwyddwr Inpartnership. Cyn hynny, bu'n gyfarwyddwr City Development ar ran Cyngor Dinas Coventry gan lwyddo i gyflawni llawer o brosiect canol y ddinas gan gynnwys Coventry Canal Basin.
Bu'n gweithio hefyd i Inner City Enterprises ccc, bu'n brif weithredwr EDI Group Cyf, ac mae wedi cyfrannu at sefydliadau cenedlaethol fel yr Historic Burghs Association of Scotland Advisory Council ac yn aelod o bwyllgor gweithredol y Scottish Council for Development & Industry. 59 oed. **(C, E, G)**

CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Robin Evans BSc, FRICS Prif weithredwr
Ymunodd Robin â Dyfrffyrdd Prydain ym 1999 fel cyfarwyddwr masnachol cyn dod yn brif weithredwr ym mis Rhagfyr 2002. Cyn hynny, treuliodd bedair blynedd fel cyfarwyddwr palasau ar gyfer yr Historic Royal Palaces a bu'n brif weithredwr The Landmark Trust am wyth mlynedd. 57 oed.

Steve Dunlop BEd (Anrh) Cyfarwyddwr yr Alban
Mae Steve yn gyn-gyfarwyddwr Adfywio gyda Chyngor Dinas Newcastle. Dechreuodd ei yrfa ym maes rheoli hamdden cyn symud ymlaen i nifer o swyddi uwch, proffil uchel, ym myd llywodraeth leol, y ddiweddaraf fel cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymuned gyda Chyngor Falkirk. 48 oed.

Nigel Johnson BSc (Econ), Cyfreithiwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac ysgrifennydd y Bwrdd
Roedd Nigel yn gyfreithiwr corfforaethol gyda'r diwydiant ariannol am 18 mlynedd ac yn uwch-gyfreithiwr gydag elusen genedlaethol yn Westminster cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain yn y flwyddyn 2000.
56 oed. **(A)**

Stuart Mills, BSc, MRICS
Cyfarwyddwr Eiddo a Menter
Mae Stuart yn syrfëwr siartredig a ymunodd â Dyfrffyrdd Prydain ym 1990 ar ôl gweithio gyda chwmni Drivers Jonas, ymgynghorwyr eiddo'r sector preifat. Mae wedi gweithio mewn sawl swydd eiddo ar hyd a lled y wlad, ac fel Pennaeth Eiddo yn fwy diweddar, bu'n gyfrifol am sefydlu nifer o fentrau ar y cyd. 43 oed.

Vince Moran BA, FCIPD
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Ymunodd Vince â Dyfrffyrdd Prydain yn sgil profiad helaeth fel rheolwr personél a chyffredinol ym maes cynhyrchu, gweithgynhyrchu a gweithgareddau gwasanaeth gyda'r diwydiant glo a Chubb Security ccc. 55 oed.

Philip Ridal BEng, FCA, MCT
Cyfarwyddwr Cyllid
Mae Philip yn aelod cymrawd o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig ac yn aelod o'r Association of Corporate Treasurers, a bu'n gweithio mewn amryw o swyddi ariannol gyda chwmnïau eiddo rhestredig y DU, gan gynnwys grŵp adeiladu Mowlem, ac mae'n gyn-gyfarwyddwr cyllid Manchester Airports Group ccc. 57 oed.

Simon Salem BA, MBA
Cyfarwyddwr Marchnata
Mae gan Simon dros 25 mlynedd o brofiad ym myd marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, materion corfforaethol a chodi arian. Bu'n gweithio i London Transport cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain. Mae wedi gweithio'n helaeth yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth. 53 oed.

Jim Stirling OBE, BSc, MBA, CEng, FICE, MIStructE
Cyfarwyddwr Technegol
Ymunodd Jim â Dyfrffyrdd Prydain fel Rheolwr, Yr Alban ym 1992 cyn dod yn gyfarwyddwr yr Alban ym 1997 a chyfarwyddwr technegol yn 2005. Treuliodd Jim flynyddoedd lawer ym myd peirianneg sifil, adeiladu a datblygu yn y DU a thramor. 58 oed.

Aelodau'r Bwrdd
Mae aelodau Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gan Lywodraeth yr Alban (yn achos dau aelod). Y nod yw sicrhau penodiadau sy'n cynnwys cydbwysedd da o sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith eang Dyfrffyrdd Prydain.

Allwedd i'r Aelodaeth
A. Cyfarwyddwr Ymddiriedolwyr Pensiwn Dyfrffyrdd Prydain Cyf.
B. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
C. Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
D. Aelod o'r Pwyllgor Enwebu
E. Aelod o Grŵp yr Alban, Dyfrffyrdd Prydain
F. Aelod o'r Pwyllgor Masnachu Teg
G. Aelod o'r Pwyllgor Grŵp Eiddo
H. Aelod o Grŵp Cynghori Cymru

ADOLYGIAD ARIANNOL

Y toriadau amlwg yng ngrantiau'r llywodraeth sy'n effeithio fwyaf ar amgylchiadau ariannol y cyfrifon hyn, sef gostyngiad o 16% i £58.9 miliwn o gymharu â £70.2 miliwn yn 2009/10. Y gwaith llwyddiannus o adfachu'r grant o £5 miliwn a dderbyniwyd yn 2008/09 gan Defra, er mwyn gwneud iawn am y diffyg gwariant gweithredol yn y flwyddyn honno, sy'n rhannol gyfrifol am y gostyngiad hwn. Mae gweddill y gostyngiad yn y cymorth grant yn adlewyrchu'r cyfyngiadau ehangach ar wariant y llywodraeth sydd wedi arwain at lai o gymorth grant gan Defra a Llywodraeth yr Alban. Yn 2010/11, mae gwariant ar ddyfrffyrdd a phrosiectau mawr yn gyffredinol wedi gostwng 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er mwyn cydbwyso'r canlyniad gweithredu.

Bydd toriadau gwariant diweddar y llywodraeth ar gyfer 2011/12 yn arwain at fwy o doriadau yn y cymorth grant gan Defra a Llywodraeth yr Alban. Er mwyn paratoi ar gyfer y rhain, rydym wedi lleihau costau rheolwyr a chostau gweithredu technegol a fydd yn lleihau gallu gweithredu Dyfrffyrdd Prydain ac yn cynyddu'r risg o fethu â chyflawni safonau gweithredu ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid ac amgylchedd y dyfrffyrdd. Er gwaethaf y camau gweithredu hyn i leihau costau, bydd angen gwneud mwy o doriadau i'r gwariant ar ddyfrffyrdd er mwyn cynnal sefyllfa refeniw sy'n mantoli'r cyfrifon.

Fodd bynnag, mae'r canlyniad gweithredu wedi elwa ar gynnydd incwm sylweddol o'n gweithgareddau masnachol, yn arbennig o'r gwerthiannau cyfleustodau a dŵr. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gwerthu gwerth £45 miliwn o eiddo buddsoddi sy'n cynhyrchu incwm, er mwyn cynnal hylifedd mewn amgylchedd fasnachu anodd. Adlewyrchir y gostyngiad canlyniadol mewn incwm rhentu unwaith eto yng nghanlyniadau'r flwyddyn hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r duedd hon newid yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i amodau'r farchnad wella ac wrth i eiddo newydd gael ei brynu. Nodwedd arall o'r strategaeth yw gwerthu ac ail-fuddsoddi rhannau o'r portffolio eiddo er mwyn cadw llai o asedau cost gwerth isel/rheolaeth uchel a gwella'r enillion ar y cyfalaf sylfaenol. Prynodd Dyfrffyrdd Prydain £10 miliwn o asedau eiddo buddsoddi ym mis Mawrth 2011 a fydd yn cynhyrchu mwy o incwm yn 2011/12.

Mae portffolio eiddo anweithredol Dyfrffyrdd Prydain yn parhau i adennill ei werth wedi effeithiau'r dirwasgiad, gyda chynnydd bychan o 1%, neu £4.4 miliwn, yng ngwerth y portffolio ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn is na marchnad eiddo y DU a gynyddodd bron i 4%. Fodd bynnag, y diddordeb mewn swyddfeydd amlwg yng nghanol Llundain oedd yn bennaf gyfrifol am berfformiad ehangach y farchnad, sydd wedi parhau i ddenu buddsoddwyr gyda chyflenwad newydd cyfyngedig. Mae portffolio Dyfrffyrdd Prydain yn ddaearyddol amrywiol, ar ochr y gamlas ac, i raddau helaeth, yn eilaidd o ran natur, felly nid yw wedi mwynhau'r un diddordeb a thwf. Fodd bynnag, nid yw'r portffolio wedi bod mor gyfnewidiol â marchnad eiddo y DU dros y tymor canolig, gyda rhai rhenti tir hirdymor sylweddol yn darparu sefydlogrwydd.

Gwnaethpwyd elw sylweddol iawn o £11 miliwn trwy gael gwared ar eiddo buddsoddi, gan gynnwys £8.5 miliwn o elw ar eiddo buddsoddi cyflenwyr adeiladwyr

sy'n agos i Fasn Paddington. Cynyddodd hyn gyfanswm yr elw o eiddo buddsoddi ar gyfer y flwyddyn i 9.1% ar gyfalaf a ddefnyddir.

Adenillwyd cyfran Dyfrffyrdd Prydain o elw a cholledion Joint Ventures yn sylweddol o golled o £18.3 miliwn yn 2009/10 i £1.8 miliwn o golled yn 2010/11.

Cafodd buddsoddiadau Gloucester Quays a Waterside Pub Partnership eu nodi'n llawn yn 2009/10 er mwyn adlewyrchu'r amodau masnachu anodd ym mhob un o'r cyd-fentrau. Nid oes mwy o arian wedi'i fuddsoddi, ac nid yw'r Grŵp wedi cymryd unrhyw atebolrwydd am y ddyled i'r banc yn y cyd-fentrau hyn. Mae'r Waterside Pub Partnership wedi'i roi yn nwylo'r gweinyddwyr gan ei fenthycwyr yn ddiweddar er mwyn cael gwared â'r eiddo buddsoddi tafarndai sydd ar ôl. Mae trafodaethau ar ailstrwythuro'n mynd rhagddynt gyda'r bancwyr ar gyfer Gloucester Quays.

Mae'r rhagolygon wedi gwella'n sylweddol yn ein cyd-fentrau eraill. Mae'r datblygiadau preswyl ISIS yn Leeds a Manceinion wedi gwerthu'n gyson drwy'r flwyddyn, a chafwyd caniatâd cynllunio am brosiect ailddatblygu mawr ar Commerce Road, Brentford. Yn Wood Wharf, gwnaethpwyd cynnydd ar gasglu tir trwy gaffaeliadau a rhagolygon datblygu ac er y bydd y gwaith yn cymryd blynyddoedd eto, daeth gam yn agosach wrth i amodau'r farchnad barhau i wella. Ym Masn City Road, dechreuodd yr elw lifo i mewn o'r datblygiad tai fforddiadwy ar safle City Road a chyfnewidiwyd contractau ar gyfer gwerthiant proffidiol y tir gyda chaniatâd cynllunio am dŵr 35 llawr a gafodd ei gwblhau ddechrau mis Mai 2011.

Gostyngodd yr arian a dderbynnir gan drydydd partïon i wneud prosiectau 12% i £14.0 miliwn (2010: £15.9 miliwn) wrth i brosiectau ddod i ben neu agosáu at eu terfyn ac wrth i lai o arian fod ar gael i brosiectau newydd. Cost net y gweithgaredd hwn i Ddyfrffyrdd Prydain oedd £4.3 miliwn am y flwyddyn (2010: £6.3 miliwn).

Mae cronfeydd grŵp wedi cynyddu 13% i £394.4 miliwn, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yn niffyg y gronfa bensiwn o £95.5 miliwn i £59.0 miliwn.

Crynodeb o'r canlyniadau £ miliwn (ac eithrio cost tâl cyfalaf a chymhorthdal y llywodraeth)

	2010/11	2009/10	Newid %
Incwm masnachol	103.6	101.0	3%
Cyfraniadau trydydd partïon at waith	**14.0**	15.9	-12%
Grantiau llywodraeth	**58.9**	70.2	-16%
Cyfanswm refeniw	**176.5**	187.1	-6%
Gwariant gweithredol	**69.8**	68.6	2%
Costau prosiectau a ariennir gan drydydd partïon	**18.3**	22.2	-18%
Cynnal a chadw	92.1	101.6	-9%

dyfrffyrdd a gwaith mawr			
Cyfanswm gwariant	**180.2**	192.4	-6%
Diffyg gweithredol	**(3.7)**	(5.3)	
Llog net	**(4.6)**	(7.8)	
Cyfran colledion o gyd-fentrau	**(1.8)**	(18.3)	
Enillion a wireddwyd o werthu eiddo ac asedau buddsoddi a oedd ar werth	**11.0**	5.3	
Enillion ailbrisio eiddo buddsoddi nas gwireddwyd	**4.4**	7.8	
Gwarged / (diffyg) cyn treth	**5.3**	(18.3)	
Credyd Treth	**11.6**	2.9	
Gwarged / (diffyg) ar ôl treth	**16.9**	(15.4)	
Arian a drosglwyddwyd (i) / o gronfeydd cyfalaf	**(25.8)**	3.1	
Diffyg a drosglwyddwyd o gronfeydd refeniw	**(8.9)**	(12.3)	
Cronfeydd cyfunol y grŵp	**394.4**	350.2	13%

Dadansoddiad o drwyddedau cychod a roddwyd yng Nghymru a Lloegr

		Cymru a Lloegr	
	2010/11	2009/10	Newid %
Cychod pleser preifat – camlesi ac afonydd			
Gyda phŵer	**26,871**	26,304	2%
Heb bŵer	**1,062**	999	6%
Cyfanswm	**27,933**	27,303	2%
Cychod pleser preifat - afonydd			
Gyda phŵer	**4,794**	4,874	-2%
Heb bŵer	**62**	65	-5%

Cyfanswm	**4,856**	4,939	5%
Cychod preswyl	**78**	83	- 6%
Cychod busnes	**2,374**	2,619	- 9%
Cyfanswm y trwyddedau hirdymor	**35,241**	34,944	1%

Ystadegau cychod

		Cymru a Lloegr			**Yr Alban**	
	2010/11	2009/10	Newid	**2010/11**	2009/10	Newid
Incwm trwyddedau cychod hirdymor £ miliwn*	**16.7**	16.3	2%	**0.66**	0.77	-14%
Nifer y trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd	**35,241**	34,944	1%	**575**	602	-4%
Incwm trwyddedau cychod fesul cwch £	**474**	467	2%	**115**	118	-3%
Incwm safleoedd angori £ miliwn	**5.8**	5.8	-1%	**0.38**	0.39	-3%
Nifer y trwyddedau angori a roddwyd**	**5,533**	5,895	-6%	**575**	602	-4%
Incwm safleoedd angori fesul trwydded £**	**1,048**	989	6%	**666**	636	5%

* Nid yw ystadegau ac incwm trwyddedau cychod yn cynnwys trwyddedau tymor byr sy'n cael eu cynnwys yn y cyfanswm incwm a nodir yn nhabl incwm masnachol y grŵp ar dudalen 30.
** Ac eithrio BWML. Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys trwyddedau angori 3 blynedd a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Crynodeb o incwm masnachol y grŵp £ miliwn

		Grŵp Dyfrffyrdd Prydain		**Cymru a Lloegr**		**Yr Alban**	
	2010/11	2009/10	newid	**2010/11**	2009/10	**2010/11**	2009/10
Premiwm, fforddfraint a rhent eiddo	**34.4**	35.6	-3%	**33.6**	35.0	**0.8**	0.6
Incwm cyfleustodau a gwerthiant dŵr	**25.1**	21.4	17%	**23.7**	20.0	**1.4**	1.4
Incwm trwyddedau cychod	**17.4**	16.8	4%	**17.0**	16.4	**0.4**	0.4
Cyfanswm incwm BWML	**6.6**	6.8	-3%	**6.6**	6.8	**-**	-
Safleoedd angori Dyfrffyrdd Prydain	**6.3**	6.5	-3%	**5.8**	6.0	**0.5**	0.5
Gwerthiant manwerthu Dyfrffyrdd Prydain	**3.2**	3.4	-6%	**1.7**	1.8	**1.5**	1.6
Cynnal a chadw ac incwm arall	**10.6**	10.5	1%	**10.3**	10.1	**0.3**	0.4
Incwm masnachol y Grŵp	**103.6**	101.0	3%	**98.7**	96.1	**4.9**	4.9
Cyfraniad trydydd partïon at waith							
Cyfraniadau at adfer camlesi a gwaith arall a ariennir gan drydydd	**14.0**	15.9	-12%	**12.9**	14.6	**1.1**	1.3

partïon							
Trosiant y Grŵp heb gynnwys cyd-fentrau	**117.6**	116.9	-1%	**111.6**	110.7	**6.0**	6.2
Grantiau a geir trwy grantiau	**58.9**	70.2	-16%	**47.4**	58.4	**11.5**	11.8
Cyfanswm incwm	**176.5**	187.1	-6%	**159.0**	169.1	**17.5**	18.0

Dadansoddiad o'r costau gweithredu £ miliwn

		Grŵp Dyfrffyrdd Prydain		**Cymru a Lloegr**		**Yr Alban**	
	2010/11	2009/10	Newid	**2010/11**	2009/10	**2010/11**	2009/10
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gweithrediadau cwsmeriaid	**65.4**	68.0	-4%	**58.1**	60.5	**7.3**	7.5
Gwaith seilwaith mawr	**22.4**	29.7	-25%	**20.4**	27.6	**2.0**	2.1
Carthu camlesi	**4.3**	3.9	10%	**4.2**	3.9	**0.1**	-
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwaith mawr	**92.1**	101.6	-9%	**82.7**	92.0	**9.4**	9.6
Asedau a ariennir trwy waddol	**2.6**	2.2	18%	**2.6**	2.2	**-**	-
Timau cenedlaethol a dyfrffyrdd	**41.9**	42.5	-1%	**38.0**	38.8	**3.9**	3.7
Costau cymorth incwm eiddo a hamdden	**19.5**	18.0	8%	**17.2**	15.4	**2.3**	2.6
Costau gweithredu BWML	**5.8**	5.9	-2%	**5.8**	5.9	**-**	-
Gwariant gweithredu	**161.9**	170.2	-5%	**146.3**	154.3	**15.6**	15.9
Costau adfer	**18.3**	22.2	-18%	**15.7**	19.4	**2.6**	2.8

camlesi a gwaith arall a ariennir gan drydydd partïon							
Cyfanswm costau gweithredu	**180.2**	192.4	-6%	**162.0**	137.7	**18.2**	18.7

Incwm masnachu

Cynyddodd cyfanswm incwm masnachol y Grŵp (ac eithrio arian trydydd partïon) 3% i £103.6 miliwn.

Gostyngodd y **Premiwm, fforddfraint a rhent eiddo** £1.2 miliwn i £34. 4 miliwn. Yn ystod 2010/11, twf negyddol a welwyd o hyd mewn Rhentu Eiddo yn y DU ac eithrio lleoliadau swyddfeydd canolog yn Llundain. Gwellodd rhagolwg economaidd ehangach y DU yn ystod y flwyddyn flaenorol, ond adferiad araf iawn a welwyd ac mae'r cyflenwad yn parhau i fod yn fwy na'r galw mewn marchnadoedd eiddo meddianwyr, sy'n arwain at fwy o bwysau ar rentu.
Mae rhenti sefydlog a darpariaethau adolygu rhent tuag i fyny yn unig wedi helpu i atal rhenti rhag gostwng mewn nifer o achosion, ond mae mwy o leoedd gwag ac ansolfedd tenantiaid wedi rhoi pwysau ar y portffolio.

Cofnodwyd llai o incwm yn yr eiddo buddsoddi yn ein contract rheoli ffynonellau allanol am fod y lleoedd gwag wedi codi o 6.6% i 7.4% o'r rhent dyledus. Sectorau diwydiannol a'r swyddfeydd yn y gogledd a'r sector manwerthu sydd wedi dioddef fwyaf, gydag un o'n tenantiaid aml-safle mawr wedi mynd yn fethdalwr. Cafwyd caffaeliadau newydd, er mai ar ddiwedd y flwyddyn y cafwyd y rhain, gan gynnwys prynu deg tafarn gan ein cyd-fenter Waterside Pub Partnership gyda chwmni Scottish & Newcastle a ddylai, ynghyd â phryniannau eraill, gynhyrchu £1 miliwn mwy o incwm yn 2011/12.

Mae'r **incwm cyfleustodau** wedi perfformio'n dda eleni gan gyflawni cynnydd o £3.7 miliwn (17%) i £25.1 miliwn. Daeth y cynnydd mwyaf yn sgil negodi contractau cyfleustodau lleol, fel gollwng dŵr wyneb gydag Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd a chroesi ceblau a chytundebau eraill gyda datblygwyr eiddo. Cynhaliwyd adolygiad pum mlynedd o dan amodau ein cytundebau cenedlaethol ar ollwng dŵr wyneb gyda'r Cwmnïau Cyfleustodau Dŵr a gynyddodd y refeniw ymhellach. Cynyddodd gwerthiannau dŵr £0.3 miliwn (6%) i £4.6 miliwn o ganlyniad i ehangu contract mawr a negodi codiad, ac fe wnaeth sawl cwsmer arall dynnu mwy o ddŵr hefyd.

Cynyddodd **Incwm trwydded cychod** 4% i £17.4 miliwn o ganlyniad i arenillion gwell o lawer a ddaeth yn sgil codi prisiau a nifer y trwyddedau a roddwyd, ynghyd ag ymdrechion parhaus i leihau achosion o osgoi talu am drwydded.

Wynebodd **Incwm Safleoedd Angori Dyfrffyrdd Prydain** amodau masnachu anodd. Arweiniodd hyn, ynghyd â pholisi sefydledig Dyfrffyrdd Prydain i leihau nifer y safleoedd angori ar-lein, at 6% yn llai o drwyddedau angori gan Ddyfrffyrdd Prydain. Fodd bynnag, gosodwyd hwn yn erbyn cynnydd yn yr incwm cyfartalog a gafwyd ar

bob trwydded angori, felly 3% llai o incwm net a welwyd yn gyffredinol, sef £6.3 miliwn. Gellir gweld mwy o fanylion am ein cychod a'n gweithgareddau cychod ar dudalen 16 o'r adroddiad hwn.

Gostyngodd incwm **British Waterways Marinas Cyfyngedig (BWML)** 3% i £6.6 miliwn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 2% o incwm ar drwyddedau angori. Mae'r cynnydd mewn angorfeydd newydd, sydd ar gael bellach yn gyffredinol ar y dyfrffyrdd mewndirol wedi llwyddiant Uned Marinas Newydd Dyfrffyrdd Prydain, wedi rhoi llawer mwy o ddewis i gwsmeriaid o ran ble i angori'u cychod a, bellach, mae cystadlu am gwsmeriaid wedi dod yn ffactor pwysig i weithredwyr marina. Gwelwyd hefyd ostyngiad yng ngweithgareddau broceriaeth a manwerthu BWML sy'n adlewyrchu cyflwr cyffredinol economi'r DU.

Costau gweithredu

Gostyngodd **gyfanswm y costau gweithredu**, ac eithrio'r gost am waith a ariannwyd gan drydydd partïon, 5% i £161.9 miliwn. Yn anochel, mae'r £11.3 miliwn yn llai o grant gan y llywodraeth wedi'n gorfodi i wneud penderfyniadau anodd ar flaenoriaethau gwario. Mae cynnydd mewn incwm masnachol ac arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill wedi'n galluogi i gyfyngu'r gostyngiad mewn gwaith cynnal a chadw a gwaith mawr ar ddyfrffyrdd i £9.5 miliwn.

Gostyngodd gwariant ***Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid*** £2.6 miliwn (4%) i £65.4 miliwn.

Gostyngodd gwariant cyfanredol ar ***Waith mawr a charthu camlesi*** £6.9 miliwn i £26.7 miliwn (2010: £33.6 miliwn). Gellir gweld mwy o fanylion ar gostau cynnal a chadw'n camlesi a'n hafonydd hanesyddol ar dudalen 10 yr adroddiad hwn.

Mae ***timau cenedlaethol a dyfrffyrdd*** yn cynnwys £2 miliwn (2009/10: £3.9 miliwn) o gost y cynllun lleihau costau a weithredwyd ar ddechrau 2011.
Mae'r categori hwn yn cynnwys costau'r prif swyddfeydd yn Watford, Paddington a Leeds, ynghyd â chostau'r timau gweithredu cenedlaethol ac unedau dyfrffyrdd lleol. Mae'n cynnwys costau timau sy'n delio gyda chostau diogelwch, materion technegol a pheirianneg, dŵr a'r amgylchedd, costau cyfreithiol, adnoddau dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, y ganolfan gwasanaethau cyllid a gweinyddu, marchnata, cyfathrebu, gwasanaethau cwsmeriaid, archwiliad mewnol, rheoli ariannol a chostau'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r Bwrdd.

Mae ***costau cymorth incwm eiddo a hamdden*** yn cynnwys y gwariant ar reoli busnesau cyfleustodau, hamdden ac eiddo ac mae'n cynnwys elw o £0.8 miliwn ar werthu eiddo gweithredol (2009/10: £3.6 miliwn).

Gweithgareddau gweithredol £ miliwn

	2010/11	2009/10
Diffyg Gweithredol	**(3.7)**	(5.3)
Cyfran o ganlyniadau cyd-fentrau (ar ôl treth)	**(1.8)**	(18.3)
Trosglwyddo colledion parhaol o gyd-fentrau i gronfa gyfalaf	**-**	16.2
Llog derbyniadwy	**1.0**	0.6
Llog taladwy	**(5.6)**	(8.4)
Diffyg ar weithgareddau gweithredol cyn treth	**(10.1)**	(15.2)
Treth gorfforaeth i'w phriodoli	**1.2**	2.9
Diffyg ar weithgareddau gweithredol ar ôl treth	**(8.9)**	(12.3)

Gweithgareddau anweithredol £ miliwn

	2010/11	2009/10
Elw ar waredu eiddo buddsoddi a gwerthu asedau	**11.0**	5.3
Enillion nas gwireddwyd wrth ailbrisio eiddo buddsoddi	**4.4**	7.8
Colledion parhaol wrth fuddsoddi mewn cyd-fentrau	**-**	(16.2)
Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn treth	**15.4**	(3.1)
Treth ar enillion cyfalaf ar elw gwaredu eiddo	**(2.8)**	(1.3)
Addasiadau ar ostyngiad yn y dreth ar ddiffygion parhaol buddsoddiadau a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol	**6.3**	-

Credyd treth ohiriedig ar enillion nas gwireddwyd	**6.9**	1.3
Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau eiddo anweithredol ar ôl treth	**25.8**	(3.1)
Trosglwyddo (i) / o gronfeydd cyfalaf a wireddwyd	**(25.8)**	3.1
Gwarged Net a gadwyd	**-**	-

Crynodeb o symudiadau ar y gronfa refeniw £ miliwn

	Gweithgareddau Gweithredol	Gweithgareddau Cyd-fentrau	**Is-gyfanswm**	Diffyg mewn Pensiynau	**Cyfanswm**
Balans fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2010	(2.5)	-	(2.5)	(64.6)	(67.1)
Ailddyrannu symudiadau diffyg mewn pensiynau y flwyddyn flaenorol*	4.2	-	4.2	(4.2)	-
Ailddyrannu symudiadau Cyd-fentrau'r flwyddyn flaenorol**	3.5	(3.5)	-	-	-
Ailddatgan balans fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2010	5.2	(3.5)	1.7	(68.8)	(67.1)
Addasiad i golledion cyd-fentrau'r flwyddyn flaenorol a drosglwyddwyd i'r gronfa gyfalaf ***	-	(4.5)	(4.5)	-	(4.5)
Diffyg ar weithgareddau	(7.1)	(1.8)	(8.9)	-	(8.9)

gweithredol ar gyfer y flwyddyn ar ôl treth					
Trosglwyddo symudiadau cronfa bensiwn y flwyddyn gyfredol net treth	1.5	-	1.5	(1.5)	-
Gostyngiad yn rhwymedigaetha u'r gronfa bensiwn net treth ohiriedig	-	-	-	26.6	26.6
Trosglwyddo o gronfeydd cyfalaf a wireddwyd (trosglwyddo arian)	5.0	-	5.0	-	5.0
Balans ar 31 Mawrth 2011	4.6	(9.8)	(5.2)	(43.7)	(48.9)

* Mae dyraniad y gronfa refeniw rhwng gweithgareddau gweithredol a'r diffyg yn y gronfa bensiwn wedi'i ailddatgan gan nad oedd y symudiadau ar y diffyg mewn pensiynau wedi'u datgan y flwyddyn cynt. Bellach, mae'r balans a ailddatganwyd gyfwerth â rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn net (gweler Nodyn 19 yn y cyfrifon hyn) a'r ased treth ohiriedig (gweler Nodyn 8 yn y cyfrifon hyn).
** Rydym wedi ehangu cyflwyniad y gronfa refeniw er mwyn gwahaniaethu rhwng gweithgareddau'r cyd-fentrau a'r gweithgareddau gweithredol
*** Trosglwyddo elw'r cyd-fentrau o'r flwyddyn gynt yn erbyn colledion y flwyddyn gynt a ariannwyd eisoes gan gronfa gyfalaf a wireddwyd

Gwarged / diffyg ar weithgareddau gweithredol

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi'i ariannu'n rhannol gan grant cymorth gan Defra ar gyfer dyfrffyrdd Cymru a Lloegr a gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer dyfrffyrdd yr Alban. Gellir ond darparu arian cymorth grant mewn 'achos o angen', ac yn unol â hynny, mae Dyfrffyrdd Prydain yn ceisio mantoli'r cyfrifon ar ei gyfrif refeniw gweithredol o un flwyddyn i'r llall. Cafodd y diffyg gweithredol cyn treth o £10.1 miliwn ei ariannu'n rhannol gan drosglwyddiad arian o £5 miliwn o gyfalaf masnachol. Mae £5 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r cronfeydd cyfalaf a wireddwyd i'r cronfeydd refeniw i ddangos y trosglwyddiad ariannol hwn.

Gwelir ymgais Dyfrffyrdd Prydain i fantoli'r cyfrif refeniw bob blwyddyn yn y crynodeb o'r symudiadau yn nhabl y gronfa refeniw. Mae balans y cronfeydd refeniw o ran gweithgareddau gweithredol wedi'i ailddatgan i ddangos gwarged o £4.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn (2010: £5.2 miliwn).

Enillion a cholledion nas gwireddwyd ar weithgareddau eiddo anweithredol

Mae credyd treth y flwyddyn flaenorol yn ymwneud â gostyngiad yn y dreth gyfalaf o ganlyniad i golled sydd wedi'i hawlio ar y colledion a gafwyd yn y gweithgareddau

gan y cyd-fentrau. Mae'r credyd treth gohiriedig ar elw nas gwireddwyd yn adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth o 28% i 26%. Y swm net a drosglwyddwyd i'r cronfeydd cyfalaf yw £25.8 miliwn (2010: £3.1 miliwn wedi'i drosglwyddo o gronfeydd cyfalaf), sy'n cynrychioli'r elw ar ailbrisio eiddo buddsoddi a'r elw yn sgil gwaredu eiddo buddsoddi net treth i'w phriodoli.

Rheolaeth y Trysorlys a hylifedd

Caiff arian parod ei fuddsoddi yn y farchnad arian am gyfnodau heb fod yn fwy na chwe mis. Mae'r arian parod sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Cyfrifon banc £ miliwn	**2010/11**	2009/10
Masnachu – cwmni Dyfrffyrdd Prydain	**11.4**	19.6
Masnachu – Is-gwmnïau	**6.1**	6.5
	17.5	26.1
Cyfalaf masnachol	**32.8**	40.9
Cadw mewn cyfrifon trydydd parti ar gyfer adfywio	**1.3**	1.2
	51.6	68.2

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn defnyddio hylifedd dros ben yn y cyfrif cyfalaf masnachol i reoli'r risg o fenthyca mewn cyd-fentrau. Mae ymwneud Dyfrffyrdd Prydain â'r marchnadoedd arian yn gymharol isel, ac mae'n mynd ati'n ddiwyd i reoli hylifedd. Mae hyn felly wedi sicrhau ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol i wrthsefyll unrhyw ansicrwydd yn y marchnadoedd arian.

Gwireddwyd cyfanswm net o £0.5 miliwn (2010: £22.4 miliwn) o arian parod yn ystod y flwyddyn trwy werthu eiddo buddsoddi net y cyfanswm a briodolwyd i ail-fuddsoddi mewn eiddo a thaliadau treth.
Gostyngodd y swm net a fuddsoddwyd mewn cyd-fentrau eleni i £3.2 miliwn (2010: £18.0 miliwn). Cedwir yr arian parod anweithredol i ail-fuddsoddi mewn eiddo a chyd-fentrau anweithredol ac i fodloni rhwymedigaethau treth.

Crynodeb o'r llif arian parod £ miliwn

	2010/11	2009/10
Diffyg Gweithredol	**(3.7)**	(5.3)
Eitemau anariannol yn y golled weithredol	**2.6**	(1.8)
Symudiad mewn cyfalaf gweithio a darpariaethau	**(5.3)**	9.6
Difidend o gyd-fentrau	**0.4**	0.6
Llog net sy'n dderbyniadwy	**0.4**	(0.3)
Llif arian parod gweithredol	**(5.6)**	2.8

Gwariant cyfalaf gweithredol (net)	**(7.8)**	(0.3)
Prynu eiddo buddsoddi	**(14.4)**	(0.9)
Gwaredu eiddo buddsoddi	**16.3**	22.5
Buddsoddi mewn cyd-fentrau	**(3.2)**	(18.0)
Taliadau i sicrhau masnach neu fusnes	**(0.5)**	-
Trethu	**(1.4)**	0.8
Llif arian parod net	**(16.6)**	6.9
Balansau arian parod ar 31 Mawrth	**51.6**	68.2

Rheoli risg hylifedd a benthyca
Mae Dyfrffyrdd Prydain yn cael ei gynnwys ym mesurau rheoli benthyca'r sector cyhoeddus ac ni chaniateir iddo fenthyca arian na derbyn dyled oni bai yr awdurdodir hynny gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae benthyciadau awdurdodedig Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys benthyciadau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, o'r Port of London Properties a chyfleuster gorddrafft o £3 miliwn. Mae benthyciadau cyfalaf gweithio ar gael gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar sail 'yn ystod y flwyddyn' hyd at y cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £35 miliwn ar gyfer yr holl fenthyca a dyled.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fuddiant mewn nifer o gyd-fentrau datblygu eiddo sy'n fusnesau annibynnol a ariennir yn annibynnol gyda dyled banc allanol heb atebolrwydd i Ddyfrffyrdd Prydain. Ym mhob un o'r cyd-fentrau, asesir a ddylai'r taliadau llog ar fenthyciadau gael eu diogelu o ystyried cwantwm y ddyled, y cyfnod y bwriedir i'r benthyciadau fod yn ddyledus a sensitifrwydd y prosiect i newidiadau yn y cyfraddau llog.

Cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau £ miliwn

	2010/11	2009/10
Gloucester Quays	**48.7**	47.2
ISIS Waterside Regeneration	**6.4**	14.7
Waterside Pubs Partnership	**-**	11.2
Wood Wharf	**2.6**	2.9
	57.7	78.8

Ar 31 Mawrth 2011, £57.7 miliwn (2010: £78.8 miliwn) oedd cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau. O'r benthyciadau hyn, mae 74% (2010: 78%) naill ai ar gyfraddau llog sefydlog neu'n amodol ar gyfnewid cyfradd llog sefydlog. Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fenthyciadau hefyd gan Port of London Properties (POLP) ar gyfradd llog gyfnewidiol, sef 1% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Y cyfanswm oedd yn ddyledus i POLP oedd £12.9 miliwn yn 2011 a 2010.

Gostyngodd benthyciadau hirdymor £0.3 miliwn i £4.9m sef 1.3% (2010: 1.5%) o gyfanswm y cronfeydd.

Crynodeb o newidiadau i ddiffyg y gronfa bensiwn £ miliwn

	2010/11	2009/10
Diffyg ar 1 Ebrill	**(95.5)**	(73.0)
Cost gwasanaethau cyfredol	**(7.9)**	(6.2)
Addasiad cost am wasanaeth a roddwyd	**-**	(0.4)
Disgownt o ddirwyn i ben rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	**(20.4)**	(19.3)
Elw ar asedau'r cynllun pensiwn	**16.1**	54.8
Enillion/(colledion) actiwaraidd	**40.1**	(60.4)
Cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwr	**8.6**	9.0
Diffyg ar 31 Mawrth	**(59.0)**	(95.5)

Asedau a rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn £ miliwn

	2010/11	2009/10	Newid
Gwerth asedau ar y farchnad	**287.9**	278.1	4%
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau	**(346.9)**	(373.6)	7%
Diffyg	**(59.0)**	(95.5)	
Cyllid %	**83%**	74%	

Cronfa Bensiwn

Yn unol â chronfeydd pensiwn tebyg eraill yn ystod y flwyddyn, digon tebyg fu hanes yr asedau buddsoddi mewn perthynas â'r farchnad arian gyffredinol, gan ddangos cynnydd cymharol mewn gwerth o £16.1 miliwn, neu 6% o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Ar 31 Mawrth 2011, 83% (2010: 74%) oedd y rhwymedigaethau a gwmpaswyd gan werth asedau. Ym mis Rhagfyr 2010, cadarnhaodd y llywodraeth y byddai'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn cael ei ddefnyddio o fis Ebrill 2011 ymlaen i fesur prisiau at ddibenion y gorchmynion ailbrisio sy'n pennu unrhyw godiadau yn nhaliadau pensiwn y sector cyhoeddus. Mae rheolau Dyfrffyrdd Prydain ynghylch y Gronfa Bensiwn yn nodi bod angen codi taliadau pensiynau yn unol â gorchmynion ailbrisio'r llywodraeth, felly mae'r CPI ar 31 Mawrth 2011 wedi'i gynnwys ym mhrisiad y cyfrifon hyn. Mae'r enillion

actiwaraidd ar y rhwymedigaethau o £40.1 miliwn yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau a achosir gan y newid hwn.

Mae'r tabl pensiynau yn dangos symudiad y gronfa bensiwn yn seiliedig ar safon cyfrifyddu IFRS ar gyfer pensiynau, IAS 19. Caiff y diffyg o £59 miliwn ar y gronfa ar 31 Mawrth 2011 ei ariannu dros gyfnod sy'n sicrhau bod y diffyg yn cael ei ddileu, gan roi sylw arbennig i fforddiadwyedd a'r cyllid sydd ar gael. Bob tair blynedd, mae hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr y Gronfa gael y gronfa wedi'i phrisio gan actwari annibynnol. Mae canlyniadau'r prisiad actiwaraidd a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2010 wedi'u cwblhau gan yr ymddiriedolwyr. Gwerth marchnad asedau'r Cynllun (ac eithrio cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol aelodau) ar 31 Mawrth 2010 oedd £274.9 miliwn a'r gwerth a roddwyd ar fuddion i aelodau, ar ôl ystyried effaith codiadau cyflog yn y dyfodol, oedd £340.5 miliwn.
Felly, roedd gan y Cynllun ddiffyg o £65.6 miliwn ac 81% ohono'n cael ei ariannu'n barhaus.

Mantolen

Mae'r cronfeydd grŵp wedi cynyddu £44.2 miliwn i £394.4 miliwn (2010: £350.2 miliwn), sef cynnydd o 13%. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys gostyngiad yn niffyg y gronfa bensiwn o £25.1 miliwn, net treth ohiriedig a gostyngiad mewn rhwymedigaethau treth net o £12.5 miliwn. Mae'r cronfeydd refeniw wedi'u rhannu yn y tabl uchod i ddangos diffyg y gronfa bensiwn a gweithgareddau cyd-fentrau ar wahân i'r cronfeydd refeniw cronedig ar weithgareddau gweithredol.

Rheoli risg

Diogelwch cwsmeriaid, contractwyr a gweithwyr cyflogedig ar y dyfrffyrdd yw prif flaenoriaeth Dyfrffyrdd Prydain. Mae Dyfrffyrdd Prydain bob amser yn ceisio gwella'i brosesau diogelwch. Mae hyfforddiant diogelwch, gweithdrefnau, arwyddion, arolygu rheolaidd a chynnal a chadw asedau a datblygu cymwyseddau perthnasol yn enghreifftiau o fframwaith diogelwch Dyfrffyrdd Prydain.

Mae'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 42 yn amlinellu agwedd Dyfrffyrdd Prydain. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd parhau i egluro risgiau, sicrhau bod prosesau rheoli effeithiol ar waith ac ymgorffori gweithdrefnau rheoli risg yn niwylliant Dyfrffyrdd Prydain. Mae'r prif risg yn deillio o'r seilwaith dyfrffyrdd a gweithgareddau masnachol.

Mae deddfwriaeth a rheoliadau'n golygu bod Dyfrffyrdd Prydain yn agored i newidiadau mewn safonau cytunedig, o ystyried natur ein gwaith a'n cyfrifoldebau. Asesir a rheolir yr effaith wrth i'r gofynion llawn ddod i'r amlwg, er enghraifft, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae partneriaethau'n darparu ffynonellau angenrheidiol a phwysig o gyllid ychwanegol. Mae'r mentrau hyn yn golygu bod modd gwella asedau Dyfrffyrdd Prydain ymhellach trwy ddefnyddio arbenigedd datblygu a chronfeydd buddsoddi allanol. Mae prosesau wedi'u datblygu i leihau risg wrth ddewis partneriaid cyd-fentrau. Mae ein cyd-fentrau'n cynnwys datblygiadau eiddo sylweddol sy'n cyflwyno amrywiaeth o risgiau masnachol.

Mae arbenigedd partneriaid yn cyfrannu'n weithredol at y meysydd hyn i reoli risgiau'n effeithiol o fewn cyfyngiadau'r cylch economaidd ehangach.

Gall datblygiad a newid sefydliadol greu nifer o risgiau cysylltiedig, er enghraifft, ymddygiad ar gyfer cysondeb wrth ddatblygu safonau, gwasanaethau cwsmeriaid a diogelwch mewn modd cost-effeithiol. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn rheoli'r risgiau hyn trwy godau arfer gorau i sicrhau masnachu teg, technegau rheoli prosiect cydnabyddedig, cyfathrebu, arfarniadau perfformiad rheolaidd a chynlluniau datblygu unigol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau busnes parhaus. Bydd y rhain yn arbennig o berthnasol wrth i ni ystyried symud i'r trydydd sector. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn addasu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl risgiau materol yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso a bod mesurau rheoli digonol ar waith i leihau'r risgiau hyn. Cyflawnir amodau ***cynaliadwy*** trwy barhau i arolygu, asesu a blaenoriaethu camau gwella canlyniadau difrifol os byddant yn methu, a'r rhai sy'n bwysig i wasanaethau ac amwynder cwsmeriaid.

Nod amcanion ehangach Dyfrffyrdd Prydain yw ymrwymo i ddarparu buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol a threftadaeth. Mae holl asedau treftadaeth y cwmni'n cael eu hasesu'n rheolaidd. Defnyddir asesiadau risg yn unol â chod ymarfer amgylcheddol Dyfrffyrdd Prydain gyda'r gwaith a gyflawnir. Yn ogystal, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cyflwyno targedau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon a'r defnydd o adnoddau. Caiff rigiau diogelwch, fandaliaeth a rhwystrau i fynediad i bawb eu rheoli gan rôl addysgol ac ymgysylltu â chymunedau Dyfrffyrdd Prydain trwy sefydliadau sy'n weithgar ym meysydd cynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddolwyr.